TGAU Gwneud-i-Gymru: Themâu Cwmpasog o'r Ymgynghoriad

Cynnwys

Cyflwyniad 3

Cysondeb â'r Cwricwlwm i Gymru 4

Hyblygrwydd a dewis 6

Cynnwys cymwysterau 8

Trefniadau asesu 10

Cydbwysedd rhwng arholiadau ac asesiadau di-arholiad 10

Haenu 14

Pwyslais ar yr ardal leol 14

Effaith ar ymgeiswyr preifat 15

Defnyddio technoleg ddigidol mewn asesiadau 16

Sylwadau eraill yn ymwneud â threfniadau asesu 19

Cynnal safonau 20

Hygyrchedd 22

Lles a pharodrwydd dysgwyr 27

Hylawrwydd ac adnoddau 28

Goblygiadau polisi ehangach 32

Ystyriaethau ar gyfer y Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16 33

Awgrymiadau i'w hystyried 34

Anghenion gwybodaeth ychwanegol 37

Atodiad 39

Cyflwyniad

Ym mis Hydref 2021 a mis Ionawr 2022, gwnaethom gadarnhau'r ystod lawn o bynciau y bydd set newydd o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru yn cael eu creu ynddynt. Yna buom yn cydweithio'n helaeth ag ystod eang o randdeiliaid i gyd-greu cynigion a fydd yn sail i'r meini prawf cymeradwyo a fydd yn llywio sut y caiff y cymwysterau TGAU newydd hyn eu dylunio.

Ar ddiwedd 2022, gwnaethom ymgynghori ar y pwrpas, y nodau, y cynnwys a'r trefniadau asesu arfaethedig ar gyfer 26 TGAU newydd a chymwysterau cysylltiedig. Gallai ymatebwyr ateb arolwg ar gyfer pob cynnig cymhwyster. Ein nod oedd casglu adborth i'w rannu gyda'n grwpiau cyd-greu a'n helpu i gwblhau'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau newydd hyn.

Yn ogystal â cheisio barn ar y cynigion ar gyfer y 26 cymhwyster newydd, gwnaethom hefyd gynnal arolwg ar ein dull cyffredinol o ddiwygio. Gofynasom i'r ymatebwyr wneud sylwadau ar y cynigion yn eu cyfanrwydd yn ogystal ag unrhyw effeithiau posib – gellir dod o hyd i'r asesiad effaith integredig yma. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion ansoddol a dderbyniwyd i'r arolwg hwn. Lle bo'n berthnasol, rydym wedi cynnwys enghreifftiau a roddwyd gan ymatebwyr yn yr arolygon lefel pwnc i egluro eu barn.

Cawsom hefyd ymatebion i ddau gwestiwn caeedig (cwestiynau graddfa Likert) a oedd yn mesur i ba raddau y cytunwyd â'r cynigion. Mae'r siartiau yn yr atodiad yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys trosolwg o'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud o ganlyniad i'r canfyddiadau. Cynhyrchwyd adroddiadau ar wahân i gyflwyno barn ymatebwyr ar bob cynnig pwnc. Gallwch chi ddod o hyd i fwy o wybodaeth am bob pwnc yma.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno crynodeb o farn yr ymatebwyr. Daw'r themâu a'r pwyntiau a gyflwynir o'u sylwadau ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli barn Cymwysterau Cymru. At hynny, nid yw'r adroddiad yn gwerthuso a yw'r sylwadau a wnaed gan yr ymatebwyr yn gywir.

Am fwy o wybodaeth am sut y gwnaethom gasglu a dadansoddi'r ymatebion a ddarparwyd, darllenwch ein hadroddiad ar y fethodoleg.

Cysondeb â'r Cwricwlwm i Gymru

Yn gyffredinol, mynegodd yr ymatebwyr farn gymysg ynghylch a fyddai cynllun arfaethedig y cymwysterau yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru (y Cwricwlwm). Nododd rhai ymatebwyr fod y cynigion yn cyd-fynd yn fras â phedwar diben y Cwricwlwm a'u bod yn amlwg yn gysylltiedig â'r chwe maes y Cwricwlwm.

Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod y cynigion yn darparu digon o hyblygrwydd i gyd-fynd â chwricwla gwahanol ysgolion wrth alluogi canolfannau i adeiladu ar syniadau'r Cwricwlwm. Teimlwyd y byddai hyn yn hwyluso continwwm dysgu.

Ystyriwyd bod grwpio meysydd pwnc, megis Saesneg iaith a llenyddiaeth Saesneg, yn un o'r ffyrdd y byddai'r cymwysterau arfaethedig yn hwyluso parhad dysgu mewn blynyddoedd ysgol cynharach. Teimlwyd y byddai hyn yn creu lle yng nghwricwlwm ysgol i adeiladu ar themâu a ddysgwyd yn flaenorol.

I'r gwrthwyneb, yr oedd rhai yn teimlo nad oedd elfennau canolog y Cwricwlwm yn ddigon nac yn gyson amlwg yn y cynigion. Er enghraifft, roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai fod cysylltiadau mwy eglur â phedwar diben y Cwricwlwm. Awgrymwyd y dylid creu cymwysterau mewn meysydd fel dinasyddiaeth i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'r sgiliau ac ymagweddau gofynnol.

Yn yr un modd, canfuwyd nad oedd rhai cymwysterau'n adlewyrchu egwyddorion cynnydd y Cwricwlwm yn ddigonol, er na fanylodd ymatebwyr ymhellach. Dywedodd eraill na fyddai rhai cymwysterau'n cefnogi'r *Datganiadau'r o'r Hyn sy'n Bwysig* yn y Cwricwlwm. Er enghraifft, nodwyd nad oedd pwysigrwydd llenyddiaeth o fewn y *Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig* i faes iaith, llenyddiaeth a chyfathrebu'r Cwricwlwm yn cael ei adlewyrchu yn y cymwysterau iaith rhyngwladol arfaethedig.

At hynny, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd rhai o'r cynigion – yn enwedig mathemateg a rhifedd, Cymraeg, Saesneg a'r gwyddorau – yn cynnwys rôl y pynciau hyn yn effeithiol yn eu maes Cwricwlwm. Dywedon nhw fod cyfleoedd i asesu hanfod rhai meysydd/pynciau wedi eu methu. Er enghraifft, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai cyfuno llenyddiaeth ac iaith yn arwain at wanhau llenyddiaeth o fewn pynciau Cymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, eglurodd eraill fod y dull hwn yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm ac y byddai'n ffordd ddiddorol i ddysgwyr ymwneud â'r pynciau.

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar yr hyn yr oeddent yn ei weld fel cyfleoedd a gollwyd mewn rhai cymwysterau i greu cysylltiadau o fewn ac ar draws meysydd y Cwricwlwm. Er enghraifft, teimlwyd y gallai cynnwys amrywiaeth ehangach o ddisgyblaethau peirianneg o fewn TGAU Peirianneg, megis peirianneg genynnau neu

beirianneg electronig, greu'r potensial i bwysleisio'r cyd-ddibyniaethau ar draws meysydd y Cwricwlwm. Rhybuddiodd ymatebwyr eraill y gallai canolbwyntio ar bynciau unigol, yn hytrach na phynciau rhyng-gysylltiedig a meysydd rhyng-gysylltiedig, gael ôl-effaith a dadbwytho'r cysylltiadau rhwng pynciau, a thrwy hynny effeithio ar brofiadau dysgwyr o'r Cwricwlwm yn eu cyfnodau addysg cynharach.

Amlygodd rhai ymatebwyr y ffocws clir yn y cynigion ar sgiliau pwnc a sgiliau sy'n rhan annatod o bedwar diben y Cwricwlwm (megis datrys problemau a chreadigrwydd), gan ei groesawu. Fodd bynnag, roedd rhai'n teimlo bod angen i hyn fod yn fwy cyson ar draws yr holl gymwysterau. Nododd eraill y gallai cydgysylltu sgiliau ar draws cymwysterau fod yn anodd i ysgolion ei amserlennu a'i reoli, ac y byddai cynnydd yn hyn o beth yn heriol i'w fonitro.

Croesawyd cynnwys themâu trawsbynciol fel addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn y cynigion. Teimlwyd y byddai datblygu pynciau TGAU sy'n draddodiadol yn canolbwyntio mwy ar alwedigaeth, megis peirianneg neu iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant, hefyd yn sicrhau y byddai dysgwyr yn ymgysylltu'n effeithiol â thema gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo bod y themâu trawsbynciol, gan gynnwys gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, wedi'u gwreiddio'n anghyson ar draws y gyfres.

Yn olaf, codwyd rhai pryderon ynghylch y tensiwn cynhenid rhwng y gofyniad i bob ysgol gynllunio a gweithredu ei chwricwlwm ei hun wrth gael dylanwad cyfyngedig ar sut mae arholiadau TGAU unigol yn cael eu hasesu.

Sut mae'r thema hon wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith

Gwnaethom ystyried y pwyntiau penodol ar gysoni cymwysterau unigol â'r Cwricwlwm wrth gyd-greu'r meini prawf cymeradwyo lefel pwnc terfynol. Rydym yn trafod y rhain yn fanylach yn ein hadroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad yn ôl pwnc.

O ran themâu trawsbynciol y Cwricwlwm, rydym wedi cryfhau ein gofynion a'n disgwyliadau o ran sut mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y gyfres newydd o gymwysterau TGAU. Mae'r Meini Prawf Cymeradwyo Lefel Cymhwyster TGAU bellach yn datgan bod yn rhaid i bob TGAU ddarparu cyfleoedd lle bo hynny'n briodol i ymgysylltu â themâu trawsbynciol y Cwricwlwm i Gymru a'u hystyried. Yn ogystal, rydym wedi cynhyrchu Datganiad Sefyllfa Polisi sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu wreiddio'r themâu trawsbynciol ar draws holl gymwysterau Gwneud-i-Gymru 14-16.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob cymhwyster a gafodd ei ddatblygu i gefnogi'r Cwricwlwm gael ei ategu gan resymeg sy'n egluro sut mae'r themâu trawsbynciol wedi cael eu hystyried wrth ddylunio'r cymhwyster.

Mewn perthynas â gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith, rydym wedi cryfhau'r adran profiadau o fewn y meini prawf cymeradwyo lefel pwnc ar gyfer sawl cymhwyster i gynnwys cyfleoedd i ddysgwyr archwilio cyfleoedd gyrfa sy'n ymwneud â'r maes pwnc perthnasol.

Hyblygrwydd a dewis

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y cynigion yn ddigon hyblyg i gyd-fynd â chwricwla ysgolion ac i alluogi ysgolion i deilwra dysgu i anghenion a phrofiadau unigol dysgwyr. Fodd bynnag, teimlwyd hefyd y gallai hyblygrwydd o'r fath roi pwysau ar athrawon i sicrhau y bydd y cyd-destun y maent yn ei ddewis ar gyfer yr asesiad yn caniatáu i ddysgwyr ddangos cyrhaeddiad ar draws y graddau. Nodwyd y byddai angen i athrawon ddeall y disgwyliadau ynghylch yr asesiad er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth gywir.

Roedd nifer o sylwadau ychwanegol a godwyd yn ymwneud â phenderfyniadau a wnaed yn flaenorol gan Cymwysterau Cymru ar yr ystod o bynciau TGAU a fydd ar gael.[1] Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd nifer y cymwysterau a gafodd eu cynnig yn ddigonol. Er enghraifft, nodwyd y gallai cyfyngu'r ystod o ieithoedd rhyngwladol ar lefel TGAU i Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg gyfyngu ar amlygiad dysgwyr i ieithoedd rhyngwladol eraill ac wedi hynny eu diddordeb yn dilyn yr ieithoedd hyn. I'r gwrthwyneb, amlygwyd y gallai cymhwyster Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol roi dewis i ddysgwyr ymestyn eu dysgu ym maes mathemateg a rhifedd y Cwricwlwm.

Roedd pryder arall yn cyfeirio at gyfuno'r pynciau presennol yn un cymhwyster. Cydnabuwyd, er bod y Cwricwlwm yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr wneud cysylltiadau rhwng pynciau, y gallai integreiddio meysydd pwnc gyfyngu ar ddewis y dysgwr. Eglurodd yr ymatebwyr y gallai cyfuno'r gwyddorau, er enghraifft, olygu na all dysgwyr ganolbwyntio ar y ddisgyblaeth wyddonol benodol y mae ganddynt y diddordeb mwyaf ynddi.

[1] Yn 2021, gwnaethom ymgynghori ar yr ystod o bynciau a ddylai fod ar gael ar lefel TGAU a chymwysterau Gwneud-i-Gymru eraill. Gallwch chi ddarllen ein hadroddiad penderfyniadau yma: cymwys-ar-gyfer-y-dyfodol-ein-penderfyniadau.pdf (cymwysterau.cymru)

Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylai'r cymwysterau presennol barhau i gael eu cynnig wrth lansio'r cymwysterau newydd, gan ganiatáu i ganolfannau ddewis y cymwysterau mwyaf priodol ar gyfer eu dysgwyr. Yn yr un modd, teimlwyd y dylai canolfannau allu optio allan o'r cynnig cymwysterau arfaethedig a pharhau i gynnig y gyfres bresennol.

Sut mae'r thema hon wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith

Mae hyblygrwydd a dewis yn gweithredu ar ddwy lefel o fewn y system gymwysterau:

- ar lefel y system o ran yr ystod o bynciau a chymwysterau sydd ar gael i'w dewis
- ar lefel cymhwyster unigol o ran y llwybrau neu'r opsiynau a gynigir o fewn cymhwyster

Mewn perthynas â'r ystod gyffredinol o bynciau a chymwysterau sydd ar gael, mae'n bwysig nodi nad y cymwysterau TGAU a'r cymwysterau cysylltiedig yr ymgynghorwyd arnynt fydd yr unig gymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr 14-16 oed. Rydym wedi ymgynghori'n ddiweddar ar gynigion ar gyfer y *Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16* a allai fod ar gael i ysgolion a dysgwyr 14-16 oed. Gwnaethom gynnig y bydd y *Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16* yn cynnwys cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd ochr yn ochr ag ystod eang o gymwysterau eraill sy'n rhychwantu lefel mynediad i Lefel 2 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC). Roedd hyn yn cynnwys cynnig i greu cyfres o gymwysterau llwybr ieithoedd rhyngwladol hyblyg i gynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau mewn ystod ehangach o ieithoedd na'r rhai a gynigir fel cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru, rydym wedi gwneud penderfyniadau pellach ar yr ystod o gymwysterau TGAU a fydd ar gael yn Gymraeg, Saesneg a'r gwyddorau i roi mwy o ddewis i ysgolion a dysgwyr.

Mae'r gofynion dylunio a nodir o fewn y meini prawf cymeradwyo lefel pwnc yn ei gwneud yn glir ble a sut y bydd gan ysgolion gyfleoedd i deilwra cynnwys ac asesiadau, gyda pharamedrau clir i helpu i sicrhau tegwch a hylawrwydd.

Unwaith y bydd y cymwysterau TGAU newydd yn cael eu cyflwyno, ni fydd yn bosibl parhau i redeg y cymwysterau TGAU presennol ochr yn ochr â nhw, am sawl rheswm. Yn gyntaf, mae'r cymwysterau TGAU newydd hyn yn cael eu diwygio i fodloni uchelgeisiau'r Cwricwlwm, a fydd yn cael ei brofi gan bob dysgwr ym Mlwyddyn 8 ac iau o fis Medi 2023. Yn ail, byddai rhedeg y ddwy set o gymwysterau ar yr un pryd yn creu risgiau sylweddol i ddysgwyr. Gallai arwain at rai dysgwyr yn sefyll nifer o gymwysterau TGAU yn yr un pwnc, gan gynyddu'r baich asesu arnyn nhw ac o bosibl effeithio ar eu haddysg

a'u canlyniadau. Byddai hefyd yn ei gwneud yn anos gosod a chynnal safonau cymaradwy a sicrhau tegwch ar draws y cymwysterau newydd a'r hen gymwysterau. Yn drydydd, byddai'n ei gwneud yn anos sicrhau bod colegau, prifysgolion a chyflogwyr yn deall y cymwysterau newydd, gan gynyddu'r risg nad yw cyflawniadau dysgwyr yn cael eu cydnabod na'u gwerthfawrogi'n briodol. Yn olaf, byddai ei gwneud yn ofynnol i'r ddwy set o gymwysterau gael eu cynnig ochr yn ochr yn cynyddu'r risgiau a'r costau sy'n gysylltiedig â darparu'r cymwysterau hyn yn sylweddol.

Cynnwys cymwysterau

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod gan y cynigion dylunio ormod o gynnwys i'w asesu, ac y byddai ei leihau yn gwneud y cymwysterau'n fwy hylaw i ddysgwyr. Ystyriwyd bod maint y cynnwys yn arbennig o heriol ar gyfer cymwysterau a ddisgrifiwyd fel rhai sy'n cyfateb i 1.5 TGAU o ran maint. Roedd rhai'n teimlo y byddai lleihau faint o gynnwys a asesir drwy arholiad yn angenrheidiol i wneud y cynnydd mewn asesiadau di-arholiad yn hylaw. Mynegwyd pryder hefyd y byddai dysgwyr yn treulio gormod o amser yn paratoi ar gyfer asesiadau ac y gallai hyn effeithio ar amser addysgu.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y cynigion yn amlinellu cynnwys a oedd yn berthnasol i'r maes pwnc ac a fyddai'n galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau pwnc penodol angenrheidiol. Nodwyd y byddai'r cynnwys arfaethedig hefyd yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu sgiliau sy'n rhan annatod o 'bedwar diben' y Cwricwlwm.

Fodd bynnag, dywedodd eraill nad oedd y cynnwys arfaethedig yn ddigon uchelgeisiol a bod y cynigion yn 'gwanhau' neu'n 'gorsymleiddio' cynnwys pwnc. Teimlwyd bod y cynigion yn hepgor 'blociau adeiladu' hanfodol pwnc-benodol megis damcaniaethau a chysyniadau sylfaenol, ond ni ddarparwyd enghreifftiau o'r hyn y teimlwyd ei fod ar goll. Dywedwyd y gallai hyn atal dysgwyr rhag adeiladu ar wybodaeth sylfaenol neu ddatblygu sgiliau sy'n rhan annatod o'r pedwar diben.

Cododd rhai bryderon hefyd y gallai cyfuno meysydd pwnc gyfyngu'r cwricwlwm ar gyfer y pynciau hynny. Teimlwyd y gallai cyfuno pynciau arwain at ddileu deunydd pwnc pwysig ac y gallai hyn wedyn gyfyngu ar brofiadau addysgol dysgwyr.

Amlygodd yr ymatebwyr fod y profiadau a amlinellwyd yn y cynigion yn ymddangos yn bwrpasol. Fodd bynnag, teimlwyd na fyddai pob dysgwr yn elwa ar y profiadau hyn pe na baent yn cael eu hasesu, yn enwedig gan y gallai athrawon ganolbwyntio ar yr hyn sy'n cael ei asesu.

At hynny, roedd yr ymatebwyr yn cydnabod y bwriad ar draws y cynigion i wneud y cymwysterau TGAU newydd yn berthnasol. Fodd bynnag, awgrymodd rhai y gallai fod

angen cymorth ar ysgolion i wneud y cynnwys a'r profiadau'n berthnasol i'r 'byd go iawn' mewn ffordd deg. Ychwanegon nhw y gallai cefnogaeth o'r fath esbonio sut y gellid ystyried cefndiroedd dysgwyr er mwyn sicrhau bod y dysgu'n berthnasol iddyn nhw. Amlygwyd, er enghraifft, ei bod yn bosibl na fyddai trafodaethau am wyliau yn berthnasol i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol.

Sut mae'r thema hon wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith

Rydym wedi penderfynu y bydd y cymwysterau a gynigiwyd gennym yn wreiddiol i fod yn gyfwerth o ran maint i 1.5 TGAU (Cymraeg, Saesneg, a mathemateg a rhifedd) bellach yn cael eu datblygu fel cymwysterau TGAU dyfarniad dwbl. Bydd hyn yn cydnabod yn fwy cywir faint o gynnwys y bydd dysgwyr sy'n astudio'r cymwysterau hyn yn ei astudio. Yn y Gymraeg, y Saesneg a'r gwyddorau, rydym hefyd wedi penderfynu creu cymwysterau TGAU dyfarniad sengl i ddiwallu anghenion y dysgwyr hynny sy'n gallu cyflawni ar lefel TGAU ond a allai ei chael hi'n anodd ymdrin ag ehangder y cynnwys sydd wedi'i gynnwys mewn TGAU dyfarniad dwbl.

Yn fwy cyffredinol mewn perthynas â sylwadau am ehangder, dyfnder a her gofynion y cynnwys, mae'n bwysig cofio bod y cynnwys yn y meini prawf cymeradwyo lefel pwnc yn cael ei ddisgrifio ar lefel uchel. Mae'r gofynion hyn yn darparu'r paramedrau y bydd y corff dyfarnu yn eu defnyddio i ddatblygu cynnwys mwy manwl a phenodol yn y fanyleb ar gyfer pob cymhwyster.

Bwriad y profiadau a gynhwysir o fewn y meini prawf cymeradwyo lefel pwnc yw sicrhau bod pob cymhwyster yn cael ei ddatblygu i gefnogi a galluogi profiadau addysgu a dysgu cadarnhaol.

Nid ydym yn mynnu bod dysgwyr yn cael eu hasesu ar y profiadau hyn; maent yn cynrychioli agweddau pwysig a chyfoethog ar bwnc y bydd dysgwyr yn elwa ohonyn nhw. Gallai ceisio asesu'r profiadau hyn yn uniongyrchol wanhau neu gyfyngu ar eu budd i ddysgwyr, er enghraifft trwy arwain at ddulliau annilys neu fformiwläig. Mewn achosion eraill, efallai na fydd asesu'r profiadau yn bosibl heb greu heriau hylawrwydd sylweddol, er enghraifft drwy ei gwneud yn ofynnol i athrawon ddangos tystiolaeth o brofiad unigol pob dysgwr. Ni fyddai rhai profiadau yn darparu sail ar gyfer gwahaniaethu effeithiol i gefnogi marc neu ganlyniad wedi'i raddio. Gallai eraill achosi rhwystrau rhag mynediad pe bai angen asesu pob dysgwr arnynt.

Mae'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer pob pwnc yn amlinellu sut y dylai'r fanyleb greu cyfleoedd i ddysgwyr ennill y profiadau gofynnol. Rydym yn disgwyl i'r canllaw athrawon

a gynhyrchir gan y corff dyfarnu esbonio sut y gellid ymgorffori'r profiadau hyn o fewn dulliau addysgu a dysgu.

Trefniadau asesu

Trefniadau asesu oedd un o'r themâu a drafodwyd amlaf. Soniodd yr ymatebwyr y byddai trefniadau asesu priodol yn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu profi'n ddigonol ac yn deg ar yr wybodaeth a'r sgiliau y maent wedi'u datblygu. Ar y cyfan, roedden nhw o'r farn y byddai'r cyfuniad o ddulliau asesu yn y cynigion yn diwallu anghenion pob dysgwr ac y dylai adeiladu darlun eang o gyrhaeddiad a chynnydd.

Awgrymodd yr ymatebwyr, o ystyried rôl fwy asesiadau di-arholiad mewn llawer o bynciau, y dylid gwneud ymchwil ar sut mae gwahanol fodelau asesu yn effeithio ar gyrhaeddiad gwahanol grwpiau o ddysgwyr ar draws pynciau.

Teimlwyd y dylid penderfynu ar nifer yr asesiadau drwy sicrhau bod digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau, a bod y canlyniadau'n gwahaniaethu ar draws yr ystod gallu a fwriadwyd.

Cyflwynir safbwyntiau ar amrywiol drefniadau asesu a thensiynau canfyddedig ynghylch y trefniadau arfaethedig isod, ond mae mwy o fanylion i'w gweld yn ein dadansoddiad o'r ymatebion lefel pwnc yn yr adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad yn ôl pwnc.

Cydbwysedd rhwng arholiadau ac asesiadau di-arholiad

Mynegodd ymatebwyr farn gymysg am y cydbwysedd arfaethedig rhwng asesiadau arholiad ac asesiadau di-arholiad. Roedd rhai yn cefnogi'r trefniadau a awgrymwyd gan eu bod yn credu bod cynyddu asesiadau di-arholiad yn gam cadarnhaol a oedd yn mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig ag arholiadau (e.e. yr aflonyddwch a allai gael ei achosi gan bandemig newydd) a'i fod yn cyd-fynd yn well ag anghenion asesu'r sgiliau sydd eu hangen mewn bywyd modern. Oherwydd y byddai asesu ar sail cwrs yn dal yr agwedd a'r wybodaeth y mae myfyrwyr yn eu harddangos yn ystod y cwrs yn well nag arholiadau, y gred oedd y byddai mwy o asesiadau di-arholiad yn decach. Roedd cynyddu nifer yr asesiadau di-arholiad hefyd yn cael ei weld fel cyfle i gau bwlch canfyddedig rhwng gwerth cymwysterau academaidd a galwedigaethol.

Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo bod arholiadau'n ymddangos yn llai cydnaws â nod y Cwricwlwm o annog canolfannau i deilwra dysgu a phrofiadau i'w cyd-destun lleol. Er enghraifft, rhoddwyd y cyfle i ysgolion 'ysgrifennu eu cwricwlwm eu hunain hyd at Flwyddyn 9, yn y bôn'. Mewn amgylchiadau o'r fath, ystyriwyd efallai na fydd arholiadau'n gallu mesur yr hyn y mae dysgwyr yn ei wybod yn deg nac yn gywir, o

ystyried yr ystod amrywiol o brofiadau y byddai'r dysgwyr wedi'u cael mewn blynyddoedd blaenorol.

Y gred oedd hefyd y bydd arholiadau yn anaddas ar gyfer y Cwricwlwm newydd, oherwydd eu bod yn tueddu i yrru dulliau addysgu ac arwain at lai o gyfleoedd ar gyfer dysgu fel tîm, datblygu cymeriad, a phrosiectau sy'n seiliedig ar chwilfrydedd, yn ogystal â dysgu sy'n hyrwyddo lles. Felly, ystyriwyd mai gorddibyniaeth ar arholiadau lle mae llawer yn y fantol fyddai'r rhwystr mwyaf i ddefnyddio addysgeg a all gefnogi dull sy'n wirioneddol seiliedig ar ddysgwyr. Yn hyn o beth, roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd yr orddibyniaeth ar arholiadau ffurfiol wedi newid digon. Yn ogystal, roedd rhai'n teimlo y dylai Cymwysterau Cymru ystyried a ddylai cymwysterau Safon Uwch gynnwys mwy o asesiadau di-arholiad i gyd-fynd â'r trefniadau asesu arfaethedig ar gyfer cymwysterau TGAU.

I'r gwrthwyneb, nid oedd ymatebwyr eraill yn croesawu'r cynnydd mewn asesiadau di-arholiad. Roedden nhw'n credu bod asesiadau di-arholiad yn cynyddu'r baich asesu ar ddysgwyr ac athrawon (yn enwedig pan gaiff yr asesiad ei farcio gan athrawon) ac yn lleihau amser addysgu (o ystyried yr angen i baratoi a chwblhau asesiadau di-arholiad). Teimlwyd y gallai nifer o weithgareddau asesiadau di-arholiad, sy'n ymestyn dros sawl wythnos neu hyd yn oed fisoedd, gyfrannu at lefelau straen parhaus trwy gydol y flwyddyn academaidd, gan y gall dysgwyr deimlo eu bod yn cael eu hasesu'n barhaus.

Ychwanegodd rhai ymatebwyr y gallai fod heriau amserlennu ar gyfer y cynigion mewn rhai pynciau, yn enwedig mewn perthynas â chynnig dewis o bynciau i ddysgwyr ymchwilio iddyn nhw drwy asesiadau di-arholiad. Roedd pryder hefyd y gallai mwy o asesiadau di-arholiad arwain at darfu ar addysgu a dysgu mewn pynciau eraill pe bai'n rhaid tynnu dysgwyr allan o wersi i gwblhau asesiadau di-arholiad. Teimlwyd y bydd angen cymorth ar ysgolion i gynllunio'r cynnydd mewn asesiadau di-arholiad yn effeithiol ar draws y cynnig.

Soniwyd am her sefydliadol ychwanegol yn achos dysgwyr sy'n symud ysgolion yn ystod eu cwrs TGAU a allai gael eu heffeithio'n niweidiol drwy gael asesiadau di-arholiad fel rhan sylweddol o'u cymhwyster. Er enghraifft, gall dysgwr adael ysgol cyn ymgymryd ag asesiad di-arholiad a mynd i ysgol newydd i ganfod bod yr asesiad di-arholiad eisoes wedi'i gwblhau. Er y bydd yn rhaid i'r ysgolion roi cyfle i gwblhau'r asesiad di-arholiad mewn achosion o'r fath, mae'n fater llwyth gwaith i'r athro yn ogystal â'r dysgwr.

Yn wahanol i'r rhai a oedd yn fwy cefnogol i asesiadau di-arholiad, roedd ymatebwyr a oedd yn ffafrio arholiadau yn credu bod asesiadau di-arholiad yn llai teg. Er enghraifft, teimlwyd bod gan asesiadau di-arholiad ormod o ystyriaethau a fydd yn anoddach i'w

hwyluso mewn ardaloedd mwy difreintiedig (e.e. mynediad at fusnesau). Y gred oedd hefyd fod asesiad dan arweiniad athrawon yn ystod pandemig Covid wedi cynyddu'r bylchau rhwng pobl gyfoethog a phobl dlawd, yn ogystal â bechgyn a merched. Ystyriwyd hyn yn ddarlun arall o annhegwch posib. Teimlwyd hefyd fod asesiadau dan arweiniad athrawon yn ystod y pandemig wedi 'gwthio'r graddau i fyny' a bod canlyniadau asesiadau di-arholiad, ar y cyfan, yn llai dibynadwy nag arholiadau, yn enwedig yn achos tasgau asesu penodol fel aseiniadau ar sail prosiect lle gallai'r briffiau amrywio'n sylweddol.

Awgrymodd ymatebwyr hefyd fod asesiadau di-arholiad yn fwy agored i ddylanwadau annymunol (ee dysgwyr yn cael cymorth ychwanegol neu ragfarn ddiarwybod wrth i athrawon farcio) ac amrywiadau mewn marcio rhwng ysgolion. Yng ngeiriau un o'r ymatebwyr, bydd 'asesiadau modiwlaidd a symud i ffwrdd o arholiadau'n adlewyrchu'r hyn y gall rhieni plentyn ei wneud, a'r rhagdybiaethau sydd gan athrawon o'r hyn y gall plentyn ei wneud, yn hytrach nag asesu'r plentyn'.

Soniwyd hefyd am bryderon ynghylch dilysrwydd asesiadau di-arholiad gan y canfuwyd y byddai asesiadau di-arholiad yn asesu perfformiad tymor byr yn hytrach na dysgu tymor hwy. Er y cydnabuwyd bod materion tebyg yn bodoli yn achos arholiadau, ystyriwyd eu bod yn fwy ar gyfer asesiadau di-arholiad gyda llai o ffyrdd o wrthweithio'r effeithiau negyddol. Nodwyd bod cael holl ddysgwyr Cymru yn sefyll yr un arholiad mewn cymhwyster – waeth beth fo'u lleoliad, ysgol, ac unrhyw ddylanwadau a ffactorau eraill – yn sicrhau bod y broses wedi'i safoni ledled y wlad a gellid dadlau y byddai'n osgoi 'cyfleoedd camymddwyn, gwallau neu gamgymeriadau gweinyddol posibl'.

Roedd rhai hefyd yn pwysleisio bod arholiadau'n cynnig cyfle i ddysgwyr brofi pwysau a dysgu sut i'w rheoli a sut i ddelio â hw. Y gred oedd bod hyn yn eu paratoi'n well ar gyfer y pwysau y bydd yn rhaid iddyn nhw eu hwynebu yn ddiweddarach yn eu bywydau.

Roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod bod tensiwn yn bodoli rhwng y ddau ddull ac y bydd anfanteision a chyfaddawdu bob amser waeth beth fo'r dull a gymerir. Awgrymwyd mai dull teg fyddai caniatáu i ddysgwyr ddewis a oedden nhw am gael eu hasesu trwy arholiad neu drwy waith cwrs neu'r ddau, lle bo hynny'n bosibl.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cynnal asesiad ar adeg pan fo dysgwyr yn barod i gael eu hasesu. Y ddau awgrym ar y pwynt hwn oedd:

- gwasgaru'r asesiadau dros y ddwy flynedd o astudiaeth i ddarparu tystiolaeth o gyrhaeddiad dysgwyr wrth iddyn nhw ymgymryd â'u cyrsiau TGAU

- defnyddio mwy o asesiadau ar-alw i ganiatáu i ddysgwyr gael eu hasesu'n gynharach neu'n hwyrach yn dibynnu ar eu cynnydd (tebyg i brawf theori gyrru)

Sut mae'r thema hon wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith

Mae gwahanol ddulliau asesu a'r cyfraniadau y dylent eu gwneud tuag at raddau cymwysterau yn hollti barn. Felly, mae'n bwysig bod penderfyniadau a wneir o amgylch y trefniadau asesu yn cydbwyso'n ofalus ystod o ffactorau, gan gynnwys hylawrwydd, dilysrwydd, dibynadwyedd ac ymgysylltu. Dyna pam nad ydym yn fwriadol wedi mabwysiadu un dull sy'n addas i bawb ar gyfer asesu ar draws y cymwysterau TGAU newydd, ond yn hytrach wedi gweithio'n agos gydag amrywiaeth o randdeiliaid i gytuno ar y dull gorau ar gyfer pob pwnc. Mae hyn wedi cael ei lywio gan ymatebion i'r ymgynghoriad, cyngor arbenigol, a'n hymchwil helaeth yn y maes hwn.[2] Gwnaethom esbonio mwy am y ffactorau a ystyriwyd wrth benderfynu sut i gael mynediad at gymwysterau TGAU fel rhan o'r ymgynghoriad ar gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru.

At ei gilydd, rydym wedi ehangu'r cymysgedd o wahanol fathau o asesiadau a ddefnyddir ar draws cymwysterau TGAU. Mae'r rhain yn cynnwys asesiadau di-arholiad a allai ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd o ran sut mae tasg asesu benodol yn cael ei chanolbwyntio neu ei chyd-destunoli o fewn paramedrau a osodir gan y corff dyfarnu. Lle cynigir yr hyblygrwydd hwn, fodd bynnag, bydd natur gyffredinol y dasg asesu'r un fath i bob dysgwr sy'n astudio'r cymhwyster. Felly, er y bydd cymwysterau TGAU newydd yn cynnwys cymysgedd o wahanol ddulliau asesu ac yn cynnig rhywfaint o ddewis i ysgolion a dysgwyr mewn perthynas â sut mae rhai o'r asesiadau hynny'n cael eu canolbwyntio, ni fyddant yn cynnig dewis rhwng gwahanol fathau o ddulliau asesu ar gyfer unrhyw uned benodol. Er enghraifft, ni fydd dysgwyr yn gallu dewis rhwng sefyll arholiad neu gwblhau asesiad di-arholiad. Mae hyn oherwydd y gall gwahanol ddulliau asesu amrywio o ran anhawster a her. Pe bai dysgwyr yn dewis gwahanol fathau o ddulliau asesu o fewn cymhwyster, byddai'n anodd iawn sicrhau bod y radd gyffredinol y maent yn ei hennill yn deg ac yn debyg i'r graddau a enillwyd gan ddysgwyr a aseswyd trwy ddull gwahanol.

Mewn TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, byddwn yn caniatáu i ysgolion neu ddysgwyr ddewis rhwng sefyll arholiad ar y sgrin neu ar bapur. Byddwn yn ei

[2] nea-whole-report-final-version-welsh-211217.pdf (cymwysterau.cymru)

gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu wirio nad yw dysgwyr yn cael mantais annheg neu nad ydynt dan anfantais trwy sefyll un math o'r arholiad neu'r llall.

Haenu

Fel rheol, gwnaethom gynnig na ddylai cymwysterau TGAU newydd gynnwys asesiadau haenog. Fel eithriad, cynigiom y dylai TGAU Mathemateg a Rhifedd a TGAU Y Gwyddorau gael eu haenu ac rydym wedi egluro'r rhesymau am hyn.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai dull di-haen godi dyheadau dysgwyr, gwella cymhelliant, a chryfhau eu hymwneud â dysgu. Ystyriwyd hefyd y gallai llai o haenau osgoi gwrthdaro posibl rhwng ysgolion a rhieni mewn amgylchiadau lle mae gwahaniaethau o ran gallu canfyddedig. Fodd bynnag, nododd eraill y gallai creu cymhwyster sydd â chynnwys sy'n darparu ar gyfer yr ystod gallu lawn fod braidd yn heriol mewn cymwysterau nad ydynt yn haenog.

Sut mae'r thema hon wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith

Cymwysterau TGAU mewn mathemateg a rhifedd a'r gwyddorau fydd yr unig gymwysterau haenog. Bydd pob cymhwyster TGAU arall yn mabwysiadu dull di-haen. Mae'r adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad fesul pwnc yn esbonio pam mae haenau'n angenrheidiol ar gyfer y gwyddorau ac ar gyfer mathemateg a rhifedd. Mae'r meini prawf cymeradwyo unigol ar lefel pwnc yn esbonio sut y bydd haenau'n gweithredu o fewn y pynciau hyn.

Pwyslais ar yr ardal leol

Soniodd yr ymatebwyr y dylai'r trefniadau asesu gyd-fynd â'r bwriad o ddod â mwy o gyd-destunau lleol i gwricwla ysgolion.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai defnyddio arholiadau i asesu gwybodaeth a sgiliau dysgwyr sy'n gysylltiedig â chyd-destun lleol yn heriol gan y byddai risg o ddefnyddio cwestiynau/tasgau generig nad ydynt yn herio nac yn gwahaniaethu'n ddigon da. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr hefyd yn lleisio pryderon mewn perthynas â defnyddio asesiadau di-arholiad i asesu cynnwys oedd yn benodol yn lleol.

Yn gyntaf, holodd rhai a fyddai'n ofynnol i'r cyrff dyfarnu osod tasgau asesiadau di-arholiad generig. Yn yr achos hwn, byddai angen i athrawon roi'r tasgau hyn yn eu cyd-destun trwy ddewis ffocws a oedd yn berthnasol i'w dysgwyr tra hefyd yn sicrhau eu bod yn gallu dangos eu cyflawniad yn llawn. Teimlwyd y gallai hyn fod yn heriol i'w gyflawni a byddai'n cynyddu'r baich ar athrawon.

Roedden nhw'n teimlo y gallai'r baich ychwanegol i sicrhau asesiad effeithiol o gyd-destunau a chynnwys lleol arwain at lefelau amrywiol o gymorth i ddysgwyr gan eu hysgolion a'u hathrawon. Gall hyn arwain at annhegwch yn seiliedig ar gyfleoedd dysgwyr i weithio ar faterion sy'n berthnasol yn lleol.

Yn ail, roedd rhai'n credu, er mwyn sicrhau bod tasgau asesiadau di-arholiad yn ddibynadwy, y byddai angen iddyn nhw gael eu safoni gan ganolfannau yn gyntaf ac yna eu cymedroli gan y corff dyfarnu. Arweiniodd hyn at bryder y gallai dylunio cynlluniau marcio priodol a chanllawiau effeithlon am y broses hon fod yn heriol oherwydd yr amrywiaeth yn y cynnwys. Teimlwyd, os na chaiff yr her hon ei goresgyn yn llwyddiannus, y gellid effeithio ar gywirdeb (a thegwch) yr asesiad.

Waeth beth fo'r dull asesu, awgrymwyd bod angen ystyried y broses o ymdrin â chwynion a/neu apeliadau gan ddysgwyr os yw sail eu hanfodlonrwydd yn gysylltiedig â chynnwys penodol lleol.

Sut mae'r thema hon wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith

Mae'r adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad fesul pwnc a'r meini prawf cymeradwyo lefel pwnc unigol yn nodi lle mae cyfleoedd i ymgorffori cyd-destunau lleol yn y cymwysterau. Mae'r dull a ddefnyddir yn amrywio yn ôl pwnc, gyda rhai pynciau a dulliau asesu yn eu cynnig eu hunain yn fwy parod i ymgorffori cyd-destunau lleol nag eraill.

Mewn achosion lle bydd cyd-destunau lleol yn cael eu defnyddio, bydd y corff dyfarnu yn darparu canllawiau a pharamedrau clir i ganolfannau i helpu i sicrhau bod y cyd-destunau a ddewisir yn briodol ac y byddant yn galluogi dysgwyr i gael mynediad at yr ystod lawn o farciau yn yr asesiad. Mae ystyriaeth ofalus wedi'i rhoi ar lefel pwnc hefyd ynghylch a yw tasgau o'r fath yn cael eu marcio'n fewnol neu'n allanol i adlewyrchu'r lefelau amrywiol o gynefindra â'r cyd-destunau lleol sy'n cael eu defnyddio.

Effaith ar ymgeiswyr preifat

Mynegwyd pryder y bydd y cynnydd arfaethedig mewn asesiadau di-arholiad yn effeithio'n negyddol ar ymgeiswyr preifat. Awgrymwyd y byddai asesiadau di-arholiad wedi'u marcio'n fewnol yn arwain at beidio â barnu ymgeiswyr preifat ar sail debyg (ac felly'n deg) i ddysgwyr eraill. Mae hyn oherwydd y gred bod adnabod y dysgwyr yn creu gogwydd cadarnhaol tuag atyn nhw.

Y gred oedd y gallai ymgeiswyr preifat ei chael hi'n anodd cyrchu cydrannau asesiadau di-arholiad hefyd gan efallai na fydd yn hawdd iddyn nhw fynychu'r ganolfan ar gyfer yr elfennau asesiad di-arholiad o dan oruchwyliaeth. Yn ogystal, efallai na fydd modd rheoli rhai canolfannau i ddarparu asesiadau di-arholiad ar gyfer ymgeiswyr preifat gan y bydd hyn yn gofyn am adnoddau ac oriau ychwanegol o waith dan oruchwyliaeth.

Ar ben arall y raddfa, crybwyllwyd, lle gallai ymgeiswyr ddelio â chydrannau asesiadau di-arholiad a chael trefniant i'w cwblhau (efallai trwy addysg heblaw yn yr ysgol neu drwy drefniant tiwtor preifat), y gallan nhw ei chael hi'n anodd gwneud elfen yr arholiad.

Sut mae'r thema hon wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi lleihau'r gyfran o asesiadau di-arholiad mewn rhai pynciau ac wedi egluro'r disgwyliadau ynghylch marcio asesiadau di-arholiad yn fewnol neu'n allanol. Dylai hyn leihau rhai o'r rhwystrau posibl y gallai ymgeiswyr preifat ddod ar eu traws wrth gael mynediad at y cymwysterau hyn. Asesir rhai pynciau, megis mathemateg a rhifedd a chyfrifiadureg, yn gyfan gwbl trwy arholiad ac felly dylent fod yn symlach i ymgeiswyr preifat gael mynediad atynt.

Mae gan y corff dyfarnu weithdrefnau sefydledig ar waith i gofrestru ymgeiswyr preifat ar gyfer cymwysterau TGAU yng Nghymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r corff dyfarnu wrth iddo ystyried hyn ymhellach yn ystod cam nesaf y broses datblygu cymwysterau.

Defnyddio technoleg ddigidol mewn asesiadau

Roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol yn gadarnhaol ynghylch cynyddu'r defnydd o dechnoleg ddigidol wrth asesu. Fodd bynnag, roedd gan hyd yn oed y rhai a oedd yn gefnogol bryderon mewn perthynas â'r adnoddau a oedd ar gael i ysgolion a dysgwyr.

Roedd ymatebwyr yn ofni na fyddai gan lawer o ysgolion y seilwaith angenrheidiol i weithredu dysgu a/neu asesu digidol ac ni fyddai ganddyn nhw'r arian i'w sicrhau erbyn i'r cymwysterau hyn gael eu cyflwyno. Soniwyd am yr heriau o ddefnyddio Hwb[3] er mwyn cyflwyno'r asesiadau personol fel tystiolaeth o broblemau posibl. Y gred oedd, yn

[3] Hwb yw platfform dysgu digidol Llywodraeth Cymru sy'n darparu gwasanaethau digidol dwyieithog i ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae mewngofnod Hwb yn rhoi mynediad i ddefnyddwyr at amrywiaeth o becynnau meddalwedd, adnoddau dysgu a gwybodaeth am y Cwricwlwm. Mae'n darparu mynediad at ddysgu proffesiynol digidol i athrawon, a dyma'r porth hefyd ar gyfer cynnal asesiadau personol gan ddysgwyr.

achos arholiadau ar sgrin, y byddai'r pwysau hyd yn oed yn fwy o ystyried eu pwysigrwydd a'r angen i'w cyflwyno ar yr un pryd. Er mwyn lliniaru yn erbyn y risg o fethiant technoleg, awgrymwyd bod copi papur wrth gefn i gyd-fynd ag asesiad ar sgrin.

Gall defnyddio technoleg ddigidol ar gyfer asesiadau di-arholiad olygu newid i waith yn cael ei wneud yn yr ysgol yn unig, o ystyried efallai na fydd gan rai dysgwyr fynediad at y dechnoleg angenrheidiol gartref. Yn hyn o beth, roedd ymatebwyr o'r farn y bydd angen dyluniad manwl o'r broses gyfan (ee ar ddarparu tystiolaeth ddigidol). Roedd rhai o'r ffactorau eraill yr oedd ymatebwyr yn teimlo y dylid eu hystyried yn cynnwys:

- deall cyfyngiadau offer meddalwedd posibl y gellir eu defnyddio gan ganolfannau a chan y corff dyfarnu wrth wirio/dilysu gwaith dysgwyr
- gwirio bod y feddalwedd a ddefnyddir ar gyfer asesiadau di-arholiad yn hwyluso proses o gynhyrchu, coladu a chyflwyno gwaith dysgwyr sy'n hylaw ac yn hygyrch
- sicrhau bod marcio electronig ac anodi gwaith dysgwyr gan athrawon i'w gyflwyno i'r corff dyfarnu, gan gynnwys taflenni a ffurflenni marcio gofynnol, yn hylaw ar gyfer canolfannau a'r corff dyfarnu
- sicrhau bod y corff dyfarnu yn darparu meddalwedd sy'n hawdd ei defnyddio a'i chyrchu, fel platfform sydd ar gael ar y we yn hytrach na gorfod gosod meddalwedd ychwanegol
- rheoli disgwyliadau a bod yn dryloyw ynghylch y baich o ran coladu a lanlwytho samplau ar gyfer cymedroli

Awgrymwyd, os na all canolfannau sicrhau mynediad digonol at dechnoleg ddigidol, y gallan nhw gyfyngu ar nifer y dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau lle mae angen ei defnyddio mewn ymdrech i sicrhau nad eir y tu hwnt i'w capasiti digidol (e.e. sefydlogrwydd rhwydwaith Wi-Fi neu hyd yn oed nifer y plygiau sydd ar gael).

Soniodd un ymatebydd y dylid ‘defnyddio technoleg ddigidol dim ond lle profwyd ei bod yn gwella'r broses arholi’. Roedd eraill yn credu bod dysgwyr eisoes yn gwneud gormod ar gyfrifiaduron a sgriniau symudol ac yn teimlo y byddai rhagor o amser sgrin mewn ysgolion ond yn gwaethygu'r broblem. Yn ogystal, dywedodd yr ymatebwyr y gallai'r arian sydd ei angen i gyfarparu ysgolion gael ei wario'n well ar anghenion ysgol eraill.

Sut mae'r thema hon wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith

Rydym wedi ystyried ein gofynion ar gyfer arholiadau digidol ym mhob pwnc yn ofalus. Dim ond pan fyddwn yn ystyried y byddai hyn yn cefnogi ac yn gwella dilysrwydd yr

asesiadau hynny yr ydym wedi ei gwneud yn ofynnol i arholiadau gael eu cyflwyno ar y sgrin. Er enghraifft, mewn pynciau celfyddydau mynegiannol (megis y cyfryngau digidol a ffilm, drama, cerddoriaeth a dawns), bydd asesiad digidol yn caniatáu i ddysgwyr adolygu ac ymateb i recordiadau o weithiau proffesiynol. Roedd ffactorau eraill a ystyriwyd gennym yn cynnwys: gwella ymgysylltiad dysgwyr a'u profiad o asesu, sicrhau cydlyniaeth ar draws pynciau cysylltiedig, gwella tegwch i ddysgwyr, a sicrhau hylawrwydd i ysgolion.

Er mwyn llywio ein penderfyniadau ar faint o asesu digidol i'w gynnwys mewn cymwysterau TGAU newydd, gwnaethom archwilio'r camau y gallai'r corff dyfarnu eu cymryd i amddiffyn dysgwyr rhag unrhyw darfu technegol yn ystod eu hasesiadau. Fel rhan o'r gwaith hwn, buom yn gweithio'n agos gyda rheolwyr rhwydweithiau ysgolion a swyddogion arholiadau i gadarnhau y byddai mesurau lliniaru posibl yn ymarferol ac yn hylaw.

Wrth benderfynu a oes angen asesiadau digidol a sut, gwnaethom ystyried nifer nodweddiadol y dysgwyr sy'n cymryd pob pwnc ar lefel genedlaethol a lefel canolfan, i wneud yn siŵr y byddai canolfannau'n gallu rheoli asesiadau digidol.

Rydym yn gwybod y bydd angen amser a buddsoddiad ar ysgolion i gynyddu eu gallu i ddarparu dysgu ac asesu digidol. Dyna pam y byddwn yn gweithio gyda'r corff dyfarnu i gyflwyno opsiwn ar gyfer arholiadau digidol yn ystod oes y cymwysterau hyn ar gyfer cymwysterau TGAU newydd ym maes dyniaethau'r Cwricwlwm, yn hytrach na chyflwyno asesiad digidol o'r dechrau. Bydd hyn yn caniatáu amser i ystyried sut y gellid cyflwyno arholiadau digidol ar gyfer y pynciau hyn, a all fod â chyfrannau cymharol uchel o ddysgwyr yn eu sefyll mewn ysgolion unigol.

Rydym mewn trafodaethau agos â Llywodraeth Cymru i helpu i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i gynllunio a pharatoi ar gyfer cynyddu eu gallu ar gyfer dysgu ac asesu digidol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r corff dyfarnu i ystyried sut y gellir dylunio asesiadau ar sgrin i fod mor gydweddol â phosibl â'r dyfeisiau a'r systemau gweithredu sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd mewn ysgolion.

Ar gyfer asesiadau di-arholiad sy'n defnyddio technolegau digidol, byddwn yn gofyn i'r corff dyfarnu gyflwyno rhesymeg i gyfiawnhau'r lefelau o reolaeth sy'n berthnasol i bob cam o'r asesiadau hyn, gan gynnwys sut y byddan nhw'n hylaw i ysgolion ac yn cefnogi tegwch i bob dysgwr. Mae ein trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru ynghylch hylawrwydd asesiadau digidol hefyd yn cynnwys y mathau o dasgau y bydd dysgwyr yn eu cyflawni, a'r rhai a allai gynnwys defnyddio pecynnau meddalwedd pwnc-benodol.

Sylwadau eraill yn ymwneud â threfniadau asesu

Codwyd y pwyntiau ychwanegol canlynol gan rai ymatebwyr mewn perthynas â'r trefniadau asesu:

- roedd y dull arfaethedig o asesu yn ymddangos yn rhy gymhleth, a allai effeithio ar amcanion y Cwricwlwm
- gall cyrff dyfarnu ei chael hi'n anodd, os nad yn amhosibl, roi asesiadau cyffredin at ei gilydd sy'n mesur yn gywir y cysyniadau o ystyried yr ystod o brofiadau Cwricwlwm gwahanol a enillwyd gan ddysgwyr gwahanol
- roedd angen ystyried effaith gronnol asesu ar ddysgwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 ar draws yr ystod o bynciau y maent yn eu hastudio (e.e. archwilio'r materion ymarferol ac effaith y cynnig ar arweinwyr ysgolion, dysgwyr a staff, a'r angen i sicrhau offer angenrheidiol)
- bydd penderfyniadau ynghylch lefelau rheolaeth yn hanfodol a bydd angen iddyn nhw gyfrannu at benderfyniadau ynghylch nifer ac amseriad tasgau ac asesiadau di-arholiad

Sut mae'r thema hon wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r corff dyfarnu i sicrhau y bydd y gofynion o fewn y meini prawf cymeradwyo lefel pwnc yn arwain at asesiadau sy'n hylaw i ysgolion a dysgwyr. Wrth gwblhau'r gofynion, fe wnaethom fapio'r gweithgareddau asesu tebygol ar gyfer pob pwnc ar draws Blynyddoedd 10 ac 11 i brofi eu heffaith gronnus ar ddysgwyr ac ysgolion. Yn seiliedig ar y gwaith hwn, rydym yn hyderus (cyn belled ag sy'n bosibl ar hyn o bryd yn y broses ddiwygio) y gall ein gofynion arwain at gyfres newydd o gymwysterau TGAU a fydd yn hylaw i ysgolion eu cyflawni a chyflwyno baich asesu cymesur i ddysgwyr sy'n cymryd gwahanol gyfuniadau o bynciau. Byddwn yn defnyddio'r dadansoddiad hwn i lywio gwaith gyda phartneriaid fel rhan o'n gweithgarwch rheoli newid i helpu canolfannau i gynllunio a pharatoi ar gyfer cyflwyno'r cymwysterau newydd hyn. Bydd y corff dyfarnu hefyd yn parhau i edrych ar effeithiau cyffredinol a hylawrwydd ei benderfyniadau dylunio asesiadau wrth ddatblygu cymwysterau i fodloni ein gofynion.

Rydym wedi nodi gofynion clir ar y gwahanol ffactorau y mae'n rhaid i'r corff dyfarnu eu hystyried wrth osod y lefelau rheoli a ddylai fod yn berthnasol i asesiadau di-arholiad, gan gynnwys pan fo gan ysgolion rôl wrth bennu tasgau asesu, yr amodau y mae'n rhaid i ddysgwyr gwblhau eu tasgau asesu yn unol â nhw, a phan fo athrawon yn marcio tasgau i ddechrau. Adlewyrchir y gofynion hyn yn y meini prawf cymeradwyo lefel pwnc

unigol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu esbonio a chyfiawnhau'r lefelau rheolaeth y mae'n eu gosod ar gyfer yr asesiadau di-arholiad o fewn pob cymhwyster y mae'n ei ddatblygu.

Cynnal safonau

Soniodd yr ymatebwyr am ba mor bwysig yw hi bod dysgwyr yn gallu dangos eu bod wedi cyflawni yn erbyn safon genedlaethol. Awgrymwyd y byddai angen cysondeb wrth farcio a dyfarnu canlyniadau ar gyfer asesiadau di-arholiad ledled Cymru er mwyn sicrhau bod yr un lefel o gyrhaeddiad yn cael ei ddangos gan bob dysgwr sy'n ennill gradd TGAU benodol. Er y bydd y proffesiwn addysgu yn gwneud popeth i sicrhau bod ei ddysgwyr yn cyflawni canlyniadau teg, teimlwyd y bydd hyder rhanddeiliaid yn cael ei gryfhau os ydynt yn sicr bod mesurau ar waith i atal camfanteisio ar y system, a thrwy hynny gefnogi asesu teg a chyson ledled y wlad. Teimlwyd hefyd y bydd angen eglurder ar y sawl sy'n llunio manylebau ac asesiadau o ran disgwyliadau, er enghraifft a ddylai canlyniadau yn 2027 fod yn fras yr un fath â'r gyfres bresennol o gymwysterau TGAU, gan y bydd y penderfyniadau polisi hyn yn cael effaith uniongyrchol ar ddyluniad cymwysterau.

Nododd yr ymatebwyr hefyd, o ystyried y brandio cyffredin â Lloegr a Gogledd Iwerddon, y dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i gysondeb ar draws yr awdurdodaethau. Awgrymwyd gan rai fod safonau'r cynnwys cymhwyster arfaethedig yn ymddangos yn isel o'i gymharu â chymwysterau yn Lloegr. Gwnaeth rhai ymatebion i arolygon ar gynigion pwnc unigol bwyntiau penodol am gynnwys y cymhwyster. Er enghraifft, y gred oedd nad oedd y cynnwys arfaethedig ar gyfer mathemateg a rhifedd yn cynnwys digon o fathemateg ar lefel uwch. Ystyriwyd bod y cynnwys arfaethedig ar gyfer cymwysterau TGAU Cymraeg a Saesneg newydd yn cynnwys ystod gyfyngedig o weithiau llenyddol. Credai rhai y byddai'r cynigion yn arwain at orchwyddiant yn y canlyniadau yng Nghymru, a allai roi dysgwyr sy'n gwneud cais i brifysgol neu'r rhai sydd am astudio y tu allan i Gymru dan anfantais.

Amlygwyd hefyd y gallai'r garfan gyntaf o ddysgwyr i ddilyn y cymwysterau arfaethedig fod dan anfantais o gymharu â charfanau'r dyfodol. O ystyried y bydd y cymwysterau'n newydd, ac na fydd athrawon wedi cael llawer o brofiad o gyflwyno'r manylebau, teimlwyd efallai na fydd y garfan gyntaf yn meithrin neu'n gallu dangos yr wybodaeth a sgiliau angenrheidiol sydd eu hangen at ddibenion cynnydd.

Awgrymwyd y byddai angen mwy o fanylion ar ganolfannau ar gyfansoddiad y cymwysterau, ac y dylid rhyddhau manylebau cyn 2025 er mwyn galluogi athrawon a darlithwyr i gynllunio eu cynnig cwricwlwm a sicrhau bod dysgwyr yn barod ar gyfer yr

asesiadau. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys y gellid treialu dyluniad y cymwysterau ac y dylid rhoi amser i athrawon addasu neu ailysgrifennu rhaglenni astudio os oes angen. Fel arall, gellid rhoi ystyriaeth arbennig i ddysgwyr wneud iawn am berfformiad is tebygol yn ystod y cyfnod pontio.

Yn olaf, roedd rhai hefyd o'r farn y gallai ymestyn dull cymhwyster Gwneud-i-Gymru roi dysgwyr Cymru o dan anfantais. Nodwyd y gallai cymwysterau sy'n benodol i Gymru wneud Cymru'n fwy ynysig ac na fyddai'r cymwysterau'n 'gweithio'n dda' y tu allan i'r cyd-destun Cymreig. Gallai hyn gyfyngu ar gyfleoedd dysgwyr y tu allan i Gymru wedyn. Yn yr un modd, mynegwyd y gallai cymwysterau Gwneud-i-Gymru gwahanol ei gwneud hi'n anodd i ddysgwyr o awdurdodaethau eraill sy'n symud i Gymru gael mynediad at y cymwysterau sydd ar gael.

Sut mae'r thema hon wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r corff dyfarnu i gadarnhau'r dull o osod a chynnal safonau o fewn y set newydd o gymwysterau TGAU. Rydym wedi cytuno y dylid dylunio ac asesu'r cymwysterau TGAU newydd er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, y bydd safonau a chanlyniadau yn debyg yn fras i'r rhai yn y set bresennol o gymwysterau TGAU.

Er eu bod yn weddol debyg, ni fydd y canlyniadau y mae dysgwyr yn eu cyflawni – o ran dosbarthiad cenedlaethol y graddau o fewn pob cymhwyster TGAU – yr un fath ag ar hyn o bryd oherwydd bydd ystod y pynciau sydd ar gael yn wahanol yn y gyfres newydd o gymwysterau TGAU. Bydd hyn yn golygu y bydd proffil cyrhaeddiad y carfanau o ddysgwyr sy'n astudio pob cymhwyster TGAU yn wahanol hefyd. Gallai newidiadau i strwythur ac asesiad pynciau unigol effeithio ar ddosbarthiad cyffredinol y graddau hefyd.

Rydym yn cydnabod yn llawn na fydd gan y garfan gyntaf o ddysgwyr sy'n astudio'r cymwysterau newydd yr un manteision â'r rhai sy'n dod ar eu hôl. Ni fydd ganddyn nhw gymaint o ddeunyddiau asesu blaenorol i'w defnyddio a bydd eu hathrawon yn llai cyfarwydd â'r manylebau. Felly, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu ddefnyddio dulliau sefydledig i ddiogelu canlyniadau'r dysgwyr hyn er mwyn sicrhau nad ydynt o dan anfantais annheg nac yn cael mantais o fod y garfan gyntaf i sefyll y cymwysterau newydd.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr cymwysterau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon i sicrhau cyn belled ag y bo modd bod cymwysterau TGAU a astudir mewn gwahanol awdurdodaethau yn parhau i fod yn gymharol debyg o ran lefel yr her.

Er mwyn rhoi mwy o fanylion i ysgolion ac athrawon am y cymwysterau newydd cyn gynted â phosibl, rydym yn gweithio'n agos gyda'r corff dyfarnu i sicrhau y bydd amlinelliadau dros dro o gymwysterau newydd arfaethedig yn cael eu cyhoeddi yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24. Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau y bydd manylebau llawn y cymwysterau'n cael eu cymeradwyo flwyddyn academaidd lawn cyn cael eu haddysgu am y tro cyntaf. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i ysgolion gynllunio a pharatoi ar gyfer cyflwyno'r cymwysterau newydd, ac iddyn nhw gael mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol ac adnoddau addysgu a dysgu cyn i ddysgwyr ddechrau ar eu cyrsiau.

Rydym wedi cyd-greu'r cymwysterau Gwneud-i-Gymru hyn i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru a'u helpu i ddod yn ddinasyddion uchelgeisiol, mentrus, iach a gwybodus yng Nghymru a'r byd. Wrth wneud hynny, rydym wedi elwa o arbenigedd cyfranwyr o bob cwr o Gymru ac o wledydd ac awdurdodaethau eraill. Rydym wedi defnyddio cynghorwyr, ymchwil a thystiolaeth ryngwladol i helpu i lywio'r broses ddylunio a'n barn. Ac rydym wedi cynnwys ymarferwyr, colegau, prifysgolion a chyflogwyr o bob rhan o'r DU. Rydym yn hyderus y bydd y cymwysterau hyn yn helpu dysgwyr i ddeall a theimlo'n rhan o'u cynefin yn ogystal â datblygu'r sgiliau, yr hyder a'r chwilfrydedd i archwilio'r byd ehangach.

Hygyrchedd

Pwysleisiodd yr ymatebwyr y dylai cymwysterau fod yn hygyrch i ddysgwyr o bob gallu, a oedd yn eu barn yn rhagofyniad i gymwysterau teg. Roedden nhw'n ystyried hygyrchedd fel cyfle i bob dysgwr ddangos ei orau o ran y sgiliau a'r wybodaeth y mae wedi eu meithrin.

Roedd gan ymatebwyr farn gymysg ar ba mor hygyrch fyddai'r cymwysterau arfaethedig yn gyffredinol.

Ar y naill law, roedd ymatebwyr o'r farn y bydd y dulliau asesu arfaethedig a chynnwys y cwricwlwm yn diwallu anghenion a diddordebau pob dysgwr ac, felly, y dylen nhw fod yn hygyrch. Roedd y cyfle i addasu'r cynnwys yn cael ei ystyried yn nodwedd a fyddai'n hyrwyddo hygyrchedd ymhellach. Fodd bynnag, nid oedd rhai ymatebwyr yn glir a oes modd gweithredu'r hyblygrwydd y mae'r cynigion yn ei gynnig yn llwyddiannus ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr (e.e. dysgwyr â nam ar eu clyw neu ar eu golwg), er nad oeddent yn egluro pam eu bod yn credu hyn.

Ar y llaw arall, roedd rhai ymatebwyr yn credu na fyddai'r gyfres o gymwysterau arfaethedig yn annog cyfle cyfartal ar y cyfan, ac na fyddent yn cefnogi anghenion dysgwyr ag ADY (anghenion dysgu ychwanegol), dysgwyr sydd mewn addysg heblaw yn yr ysgol, dysgwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion a dysgwyr gallu is. Roedd y rhesymau'n cynnwys y byddai rhai cymwysterau'n cael eu cyfuno (fel y trafodwyd mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn), ac y gallai'r elfennau ymarferol ar gyfer dysgwyr sydd mewn addysg heblaw yn yr ysgol (sy'n aml yn ymuno â'r sector yn hwyr yn y flwyddyn academaidd) gyfyngu ar nifer y cymwysterau y gallan nhw eu cyflawni'n realistig.

Yn ogystal, roedd rhai'n credu na fydd y cymwysterau arfaethedig yn ymestyn ac yn herio dysgwyr gallu uwch. Y rhesymau a nodwyd oedd nad yw'r cynigion yn gofyn am ymgysylltu digonol â gwybodaeth am bynciau craidd a damcaniaethau sylfaenol. Nodwyd y gallai dysgwyr mwy galluog a thalentog fod yn llai llwyddiannus heb wybodaeth o'r fath wrth gystadlu am leoedd ar lwybrau dysgu academaidd neu symud ymlaen yn eu dewis gyrfa. Teimlwyd hefyd y gallai hyn gyfyngu disgwyliadau dysgwyr o'u hunain a'u cyflawniadau ar ddiwedd eu gyrfa ysgol. Awgrymwyd y dylid creu cymhwyster ychwanegol ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog, yn enwedig yn y gwyddorau, er mwyn atal dysgwyr o'r fath rhag colli brwdfrydedd yn eu hastudiaethau.

Soniodd rhai ymatebwyr y byddai sicrhau hygyrchedd yn anodd o ystyried y bydd dewisiadau neu anghenion dysgwyr yn amrywio'n fawr. Er enghraifft, gallai fod yn well gan rai dysgwyr arholiadau tra gallai eraill deimlo'n fwy hyderus yn gwneud gwaith cwrs.

Roedd rhai safbwyntiau ar hygyrchedd yn troi o amgylch dulliau asesu. Er enghraifft, y gred oedd y dylai cyfran uwch o asesiadau di-arholiad ganiatáu rhaglen ddysgu sy'n fwy hygyrch, cynhwysol a hylaw i ddysgwyr, yn enwedig dysgwyr gallu is. Gwerthfawrogwyd hyn yn arbennig o ystyried na fydd y rhan fwyaf o bynciau'n cael eu haenu, a theimlai'r ymatebwyr y byddai'n golygu y bydd yn eithaf heriol sicrhau bod yr arholiadau'n darparu ar gyfer pob math o allu. Ar yr un pryd, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai mwy o waith cwrs roi dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu ddysgwyr sy'n absennol yn aml o dan anfantais. Roedd rhai hefyd o'r farn pe bai tasgau asesiadau di-arholiad yn cael eu cwblhau gartref, y byddai'r rhain yn cael eu gwneud yn llai hygyrch i ddysgwyr nad oes ganddynt lefel dda o gymorth o bosibl, ac felly gallai arwain at annhegwch.

Mynegwyd safbwyntiau tebyg mewn perthynas ag asesiadau digidol. Y gred oedd y gallai asesiadau digidol rwystro hygyrchedd lle nad yw ysgolion yn gallu eu cyflwyno i safon dderbyniol. Mynegwyd syniad tebyg mewn perthynas ag adnoddau yn gyffredinol

(e.e. ysgolion yn gallu darparu deunyddiau hygyrch i bob gallu neu allu cynnig ystod eang o bynciau wrth sicrhau arbenigedd pwnc ym mhob un o'r cymwysterau).

Codwyd pryder tegwch o ran cymryd gofal i beidio â 'chosbi' dysgwyr ag argyhoeddiadau crefyddol neu athronyddol a allai fod yn groes i agweddau penodol ar y cwricwlwm.

Sut mae'r thema hon wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith

Rydym yn esbonio yn yr adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad fesul pwnc sut rydym wedi mynd i'r afael â phryderon hygyrchedd o fewn y meini prawf cymeradwyo lefel pwnc ar gyfer pob cymhwyster. Yn fwy cyffredinol, mae gennym ddogfen ganllaw sefydledig, Mynediad Teg trwy Gynllunio, sy'n cynghori cyrff dyfarnu ar sut i gynhyrchu deunyddiau asesu sydd mor hygyrch â phosibl. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu roi sylw dyledus i'r ddogfen hon wrth ddatblygu cymwysterau TGAU i fodloni ein meini prawf cymeradwyo.

Mae ein dull o gyd-greu'r gofynion dylunio fesul pwnc wedi ein galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ar y trefniadau asesu ar gyfer pob cymhwyster TGAU newydd yn ofalus. Ar ben hynny, nid y cymwysterau hyn fydd yr unig gymwysterau fydd ar gael i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed; bydd y Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16 yn darparu ystod gynhwysfawr o gymwysterau o lefel mynediad hyd at Lefel 2 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC). Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pob ysgol yn gallu cynnig dewis o gymwysterau i'w dysgwyr sy'n addas iddyn nhw.

Rydym hefyd wedi comisiynu ymchwil allanol sy'n edrych ar sut mae systemau cymwysterau ac asesu gwledydd eraill yn mynd i'r afael â materion cynhwysiant a hygyrchedd i nodi a oes gwersi y gallwn eu dysgu o systemau eraill. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r ymchwil hon erbyn diwedd 2023.

Cynnydd dysgwyr

Mynegodd yr ymatebwyr farn gymysg ynghylch a fyddai'r cynigion yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen i lwybrau ôl-16. Nodwyd y byddai rhai o'r pynciau TGAU newydd sbon, fel TGAU Astudiaethau Cymdeithasol, yn cefnogi dysgwyr sy'n symud ymlaen i astudio UG a Safon Uwch mewn pynciau cysylltiedig.

Fel y nodwyd uchod, roedd rhai'n credu y gallai gwybodaeth a sgiliau dysgwyr gael eu heffeithio yn y pynciau hynny lle mae cymwysterau cyfun yn cael eu cyflwyno. Eglurodd yr ymatebwyr y gallai cyfuno cymwysterau ar wahân, er enghraifft mewn iaith a

llenyddiaeth ar gyfer Cymraeg a Saesneg, arwain at ostyngiad cyffredinol mewn amser addysgu, a allai olygu bod gan ddysgwyr lai o gyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau. Ychwanegon nhw y gallai lefelau llythrennedd gael eu heffeithio, a allai ddylanwadu ar berfformiad dysgwyr ar draws y gyfres o gymwysterau TGAU.

Teimlwyd hefyd na fyddai cymwysterau cyfun yn cynnig digon o gyfle i ddysgwyr â chyrhaeddiad isel ddatblygu 'sgiliau sylfaenol'. Felly, gall darparwyr addysg eraill ystyried cynnig cymwysterau gwahanol, fel BTEC, os nad yw cymwysterau TGAU arwahanol ar gael i'w haddysgu mwyach. Dywedodd yr ymatebwyr y gallai hyn leihau cyfle cyfartal ac effeithio ar gynnydd dysgwyr.

Yn ogystal, nododd yr ymatebwyr fod angen cymwysterau arwahanol i alluogi dysgwyr sy'n cyrraedd lefel uchel i ennill yr wybodaeth a dealltwriaeth fanwl sy'n ofynnol ar gyfer dilyniant. Dywedon nhw, yn achos y gwyddorau, fod angen cymwysterau mewn disgyblaethau gwyddoniaeth arwahanol i sicrhau bod dysgwyr yn ddigon parod ar gyfer pontio i addysg bellach ac addysg uwch.

Nododd rhai y byddai cyfuno cymwysterau mewn Cymraeg, Saesneg, a mathemateg a rhifedd yn golygu mai dim ond un cymhwyster y byddai dysgwyr yn ei gael, yn hytrach na dau. Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod gan ddysgwyr ddau gyfle ar hyn o bryd i gyflawni'r radd sy'n ofynnol at ddibenion cynnydd. Pan gyfunir cymwysterau, dim ond un cyfle fyddai gan ddysgwyr i ennill y radd angenrheidiol.

Roedd rôl cymwysterau unigol mewn pynciau fel Saesneg neu'r gwyddorau yn bwysig o ran cael mynediad i'r brifysgol. Esboniodd ymatebwyr fod rhai prifysgolion yn ystyried wyth canlyniad TGAU gorau ymgeisydd wrth werthuso cais. Roedden nhw'n teimlo, pe bai cyfanswm y cymwysterau TGAU a gymerir gan ymgeiswyr o Gymru yn cael ei leihau, gallai hyn eu rhoi dan anfantais o'u cymharu â'u cyfoedion yn Lloegr (os ydyn nhw'n sefyll yr un nifer o gymwysterau ag y maen nhw nawr).

Roedd cyfuno pynciau a chreu cymwysterau mwy hefyd yn cael ei ystyried yn her bosibl i golegau addysg bellach; gallai maint y cynnwys i'w gwmpasu o fewn yr amser sydd ar gael ei gwneud yn anodd i golegau gynnig cymwysterau o'r fath fel cyfleoedd ailsefyll. O ganlyniad, gellid effeithio ar gyrhaeddiad dysgwyr yn y pynciau hyn. Yn yr un modd, rhybuddiwyd y gallai dysgwyr sy'n dewis dilyn llwybr galwedigaethol ôl-16 deimlo'n ddigalon pe bai angen iddyn nhw astudio cymwysterau TGAU cyfun mwy o faint yn y coleg hefyd. Teimlwyd y gallai fod yn anodd cyfiawnhau gofyn i ddysgwyr ar gwrs galwedigaethol astudio llenyddiaeth, er enghraifft.

Gwnaeth ymatebion eraill sylwadau ar strwythur arfaethedig cymwysterau penodol. Er enghraifft, nodwyd, lle mae cynigion yn awgrymu asesu dysgwyr ar ddiwedd y cwrs, y

gallai dysgwyr ei chael hi'n anodd cyflawni'r radd a ddymunir. Roedd ymatebwyr yn credu bod dysgwyr difreintiedig yn elwa o strwythur sy'n gwasgaru pwyntiau asesu drwy gydol y ddwy flynedd o astudio. Amlygwyd ganddynt, yn achos y Gymraeg, mai 'prin y byddai disgyblion yn cyrraedd yr un safonau gyda dim ond un cyfle ar ddiwedd Blwyddyn 11'. Ychwanegon nhw y dylid ystyried a allai hyn atal dysgwyr rhag parhau i Safon Uwch ac addysg uwch.

Roedd rhai hefyd o'r farn bod y cymwysterau arfaethedig yn canolbwyntio gormod ar y cyd-destun Cymreig. Teimlwyd y gallai pwyslais ar eu hardal leol eu hunain yng Nghymru gyfyngu ar wybodaeth ac o ganlyniad gyfyngu ar gyfleoedd dysgwyr y tu allan i Gymru. Yn yr un modd, teimlai rhai fod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar ddysgwyr yn astudio'r Gymraeg, ac y gallai canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg, yn hytrach na meysydd pwnc eraill, effeithio ar y rhai sy'n dymuno gweithio y tu allan i Gymru.

Sut mae'r thema hon wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith

Er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch hygyrchedd cymwysterau TGAU cyfunol mewn Cymraeg, Saesneg a'r gwyddorau, rydym wedi penderfynu ehangu'r ystod o gymwysterau TGAU a fydd ar gael yn y pynciau hyn.

Yn y pynciau hyn, bydd ysgolion a dysgwyr yn gallu dewis rhwng cymhwyster dyfarniad dwbl neu TGAU dyfarniad sengl. I fwyafrif sylweddol y dysgwyr, y cymhwyster dyfarniad dwbl fydd y mwyaf priodol, gan sicrhau bod dysgwyr yn gallu datblygu ystod eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau yn y pynciau hyn i gefnogi dilyniant effeithiol i lwybrau ôl-16, gan gynnwys astudio cymwysterau UG a Safon Uwch. Bydd yr opsiwn o sefyll TGAU dyfarniad sengl yn y pynciau hyn yn diwallu anghenion y dysgwyr hynny sy'n gallu cyflawni ar lefel TGAU, ond a allai ei chael hi'n anodd ymdrin ag ehangder y cynnwys sydd wedi'i gynnwys mewn TGAU dyfarniad dwbl.

Bydd y cymwysterau TGAU dyfarniad sengl hyn hefyd yn fwy hylaw i'w cyflawni mewn lleoliadau ôl-16, ac i ddysgwyr ôl-16 eu hastudio o fewn eu llwybr dewisol.

Ni fyddwn yn creu cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd dyfarniad sengl ac rydym yn trafod y rhesymau dros y penderfyniad hwn yn fanylach yn ein hadroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad fesul pwnc. Fodd bynnag, bydd y cymhwyster newydd yn un unedol. Mae hyn yn golygu y bydd dysgwyr ôl-16 sy'n ailsefyll y cymhwyster hwn yn gallu canolbwyntio ar ailsefyll unedau penodol, lle bo hynny'n briodol, yn hytrach na'r cymhwyster cyfan. Rydym wedi gofyn i'r corff dyfarnu edrych ar sut y gellid ehangu'r gofynion ar gyfer ailsefyll unedau unigol ar gyfer dysgwyr ôl-16, wrth gynnal uniondeb y

cymhwyster, fel y gall dysgwyr ôl-16 elwa'n llawn o strwythur unedol y cymhwyster newydd.

Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â'r sector addysg uwch ledled y DU ar ein diwygiadau arfaethedig. Byddwn yn parhau i wneud hyn drwy gydol cam nesaf y prosiect i sicrhau eu bod yn deall yn llawn y newidiadau yr ydym yn eu gwneud fel y bydd eu proses dderbyn yn sicrhau bod dysgwyr yng Nghymru yn cael eu trin yn deg. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod prifysgolion a cholegau yn deall y dewis o gymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru, a'u bod yn cydnabod gwerth ac arwyddocâd y graddau a ddyfarnwyd ar gyfer cymwysterau TGAU dyfarniad dwbl cyfun newydd. Ar gyfer TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl), sy'n gymhwyster newydd, byddwn yn ei gwneud yn glir y bydd gwybodaeth am gyrhaeddiad dysgwr ym mhob un o'r disgyblaethau gwyddoniaeth ar wahân ar gael ochr yn ochr â'r radd gyffredinol a ddyfarnwyd.

Er bod canlyniadau TGAU yn bwysig i ofynion mynediad i'r brifysgol, gwyddom mai cymwysterau UG a Safon Uwch a'u cymwysterau cyfatebol yw prif ffocws prosesau derbyn addysg uwch. Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn cadarnhau ein cynlluniau ar gyfer adolygiad lefel uchel o gymwysterau UG a Safon Uwch a fydd yn helpu i bennu ein dull o ddiwygio'r cymwysterau hyn yn y dyfodol.

Yn olaf, fel y soniwyd uchod, bydd y safonau a lefel yr her yn y gyfres newydd o gymwysterau TGAU yn gymharol debyg â'r rhai yn y gyfres bresennol.

Lles a pharodrwydd dysgwyr

Mynegwyd hefyd bryderon ynghylch effaith y cynigion ar les dysgwyr. Teimlwyd gan rai y gallai'r defnydd parhaus o arholiadau ac asesiadau terfynol achosi, neu waethygu, materion lles dysgwyr.

Fodd bynnag, dywedodd eraill y gallai'r amrywiaeth o ddulliau asesu a'r newid cyffredinol i bwyntiau asesu lluosog leddfu straen a phryder sy'n gysylltiedig ag arholiadau. Serch hynny, ystyriwyd bod cynyddu nifer y pwyntiau asesu ym Mlwyddyn 10 yn cael effaith andwyol bosibl ar les rhai dysgwyr.

At hynny, adroddwyd y gallai gostyngiad yn nifer y cymwysterau leihau straen posibl sy'n gysylltiedig â nifer yr asesiadau. Eglurodd yr ymatebwyr bod rhai dysgwyr yn astudio hyd at 14 TGAU ar hyn o bryd a bod hyn yn 'ormod'. Teimlwyd, er mwyn gwella lles, y byddai'n bwysig sicrhau nad yw ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gymryd cymaint o gymwysterau â phosibl.

Er mwyn paratoi dysgwyr ar gyfer y gyfres newydd o gymwysterau TGAU, adroddwyd y byddai angen i ddysgwyr gael gwybod digon am y trefniadau asesu newydd cyn

dechrau eu cymwysterau. Byddai angen i ddysgwyr ddeall ac addasu i'r system newydd fel na fyddai hyn yn ‘sioc’ i ddysgwyr pan fyddan nhw’n cymryd eu hasesiadau ym Mlwyddyn 11.

Ar ben hynny, teimlwyd, gyda mwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol mewn cymwysterau, y byddai angen digon o amser ar ddysgwyr i addasu i ddulliau asesu digidol. Fel y nodwyd mewn mannau eraill, mynegwyd pryderon y gallai anghydraddoldeb mynediad at adnoddau digidol achosi annhegwch. Teimlwyd bod yn rhaid i ddysgwyr gael mynediad digonol at adnoddau o'r fath i gynorthwyo gyda'u paratoadau.

Sut mae'r thema hon wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith

Rydym eisoes wedi trafod pwysigrwydd cydbwyso amseriad a chymysgedd dulliau asesu yn y cymwysterau hyn.

Ar hyn o bryd, rydym yn cynllunio rhaglen rheoli newid helaeth i gefnogi cyflwyno'r cymwysterau newydd hyn. Rydym yn gweithio’n agos gyda Llywodraeth Cymru a’r corff dyfarnu i sicrhau bod ysgolion a dysgwyr yn cael eu cefnogi’n llawn yn y broses hon.

O ran nifer y cymwysterau y mae dysgwyr yn eu hastudio, mae'n bwysig pwysleisio na ddylai pob elfen o ddysgu ym Mlynyddoedd 10 ac 11 arwain at gymwysterau. Mae'r Cwricwlwm yn ymwneud â dysgu, profiadau a chyflawniadau ehangach sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn y gellir ei fesur a'i gydnabod trwy gymwysterau. Er y dylid gwneud penderfyniadau ynghylch nifer y cymwysterau y mae dysgwyr yn cael eu cofrestru ar eu cyfer ar lefel ysgol, a’r math ohonynt, mae'n bwysig bod digon o le ar gael yn yr amserlen ar gyfer profiadau a chanlyniadau dysgu gwerthfawr eraill.

Hylawrwydd ac adnoddau

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen mwy o wybodaeth arnyn nhw am yr asesiad (e.e. rhagor o fanylion o fanylebau arholiadau, unwaith y byddan nhw’n barod) i werthfawrogi'n llawn pa mor hylaw, ymarferol a hygyrch fydd y cynigion.

Ar y cyfan, teimlwyd y byddai'r cymwysterau'n hylaw. Fodd bynnag, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith y byddai'r newidiadau arfaethedig yn arwain at gynnydd mawr mewn llwyth gwaith a mwy o faich gweinyddol ar ysgolion. Er enghraifft, byddai angen i ysgolion reoli’r gwaith o gyflawni’r nifer cynyddol o asesiadau di-arholiad. Soniwyd bod y trefniadau asesu presennol eisoes o dan bwysau annioddefol. Ystyriwyd bod y cynnydd canfyddedig mewn llwyth gwaith yn effeithio ar les athrawon.

Rhybuddiodd yr ymatebwyr y gallai'r newidiadau arwain at athrawon yn gadael y proffesiwn.

Mynegodd yr ymatebwyr farn gymysg mewn perthynas â'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cymwysterau. Ar y naill law, teimlwyd na fyddai 'unrhyw wahaniaeth' yng ngallu canolfannau i gyflwyno'r cymwysterau newydd ac mai ychydig o ofynion ychwanegol fyddai eu hangen. Eglurodd ymatebwyr eraill y gallai ysgolion 'gaffael adnoddau'n strategol' neu wneud y newidiadau angenrheidiol i ddarparu ar gyfer y cymwysterau – megis addasu amserlenni.

I'r gwrthwyneb, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith y byddai angen cefnogi canolfannau a gwneud amrywiaeth o awgrymiadau yn amlinellu'r hyn y gallai fod ei angen. Thema a godwyd sawl gwaith oedd yr angen am gyllid digonol i sicrhau bod mwy o athrawon, darlithwyr a staff cymorth yn cael eu recriwtio a'u cadw. Adroddwyd y byddai athrawon pynciau STEM, ymarferwyr mwy profiadol ac athrawon cymwysterau newydd, fel TGAU Astudiaethau Cymdeithasol, yn angenrheidiol i sicrhau bod y gyfres yn cael ei chyflwyno'n llwyddiannus. Roedd rhai ymatebion hefyd yn ystyried anghenion lleoliadau addysg amgen, lle mae cymarebau dysgwr-i-athro yn tueddol o fod yn uwch a lle ceir mwy o anawsterau wrth recriwtio athrawon arbenigol.

Fodd bynnag, tynnodd yr ymatebwyr sylw at y ffaith hefyd na fydd lefelau presennol o staffio o bosibl yn cyd-fynd â maint cymwysterau cyfunol a'u horiau dysgu dan arweiniad arfaethedig; gallai newidiadau felly arwain at newidiadau i strwythurau staffio a diswyddiadau posibl, yn enwedig yn achos y gwyddorau, lle bydd tri chymhwyster yn cael eu cyfuno'n gymhwyster dyfarniad dwbl.

Awgrym cyson a wnaed i gefnogi athrawon, darlithwyr a staff cymorth oedd darparu dysgu proffesiynol o ansawdd uchel. Teimlwyd y byddai angen hyfforddiant pwnc-benodol rhad ac am ddim a hygyrch er mwyn i bob ymarferydd gyflwyno cynnwys y cymhwyster yn effeithiol. Nododd rhai y byddai hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai sy'n addysgu cymwysterau newydd fel TGAU Dawns neu TGAU Astudiaethau Cymdeithasol. Yn yr un modd, dywedodd yr ymatebwyr y byddai angen i athrawon cymwysterau cyfun feddu ar yr wybodaeth ryngddisgyblaethol sy'n ofynnol i gyflwyno'r cynnwys diwygiedig.

Dywedodd yr ymatebwyr hefyd y gallai dysgu proffesiynol baratoi staff i farcio a chymedroli asesiadau yn deg ac yn gadarn. Dywedon nhw y dylid darparu hyfforddiant cyn cyflwyno'r cymwysterau ac y byddai angen cytuno pwy sy'n gyfrifol am ddarparu hyn yn gynnar yn y broses.

Yn yr un modd, ystyriwyd bod angen rhwydweithio a deialog broffesiynol barhaus er mwyn galluogi athrawon a darlithwyr i drafod syniadau a chreu adnoddau. Teimlwyd y gallai hyn sicrhau cysondeb wrth weithredu cymwysterau. Yn yr un modd, awgrymwyd cefnogaeth gan randdeiliaid a sefydliadau allanol hefyd fel ffordd o gynorthwyo athrawon a dysgwyr. Er enghraifft, gallai Gyrfa Cymru helpu athrawon i wreiddio addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith.

Eglurodd yr ymatebwyr fod angen digon o amser ar staff hefyd i baratoi ar gyfer y cymwysterau a'u rhoi ar waith; mae angen i athrawon a darlithwyr fod â'r gallu i ymgysylltu'n ystyrlon â'r cymwysterau a chynllunio a pharatoi adnoddau sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr. Amlygwyd bod paratoi o'r fath yn ymestyn i flynyddoedd ysgol cynharach, gyda rhai'n awgrymu bod yn rhaid i ddysgwyr hyd yn oed ym Mlwyddyn 7 ddechrau deall a pharatoi ar gyfer cymwysterau ac asesiadau.

Nodwyd y gallai'r cynnydd mewn asesiadau di-arholiad ar draws y gyfres olygu bod angen amser ychwanegol ar gyfer asesu, marcio a chymedroli gwaith dysgwyr. Roedd digon o amser i gefnogi dysgwyr sydd ar ei hôl hi neu sydd angen trefniadau arbennig (e.e. darllenwyr/copïwyr, lleoliadau ar wahân) hefyd yn cael ei ystyried yn angenrheidiol. Nododd ymatebwyr y dylid hefyd ystyried y cynnydd yn y tasgau gweinyddol cysylltiedig a gyflawnir gan swyddogion arholiadau. Awgrymwyd bod terfynau amser gwasgarog ar draws y gyfres yn ateb posibl i fynd i'r afael â'r mathau hyn o heriau.

Dywedodd yr ymatebwyr y byddai angen arweiniad cynnar a chlir ar ganolfannau ar sut i gyflwyno'r cymwysterau a'r asesiadau. Eglurwyd y byddai angen hyn i sicrhau bod y cymwysterau'n cael eu gweithredu mewn ffordd gyson a theg ar draws y wlad. Er enghraifft, teimlwyd y byddai angen i ganolfannau ddeall unrhyw ddisgwyliadau ynghylch darparu asesiadau di-arholiad, safonau, a'r cydbwysedd rhwng cyd-destunau byd-eang, cenedlaethol a lleol yng nghynnwys y pwnc.

Teimlwyd hefyd bod deunyddiau enghreifftiol ar gyfer arholiadau ac asesiadau yn allweddol; dywedodd ymatebwyr fod angen i ymarferwyr weld a deall sut olwg fydd ar yr asesiadau er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth gywir. Amlygwyd hefyd y bydd angen i adnoddau o'r fath fod ar gael yn ddwyieithog.

Efallai y bydd angen ardaloedd ffisegol mwy o faint a mwy priodol hefyd ar ysgolion ar gyfer addysgu a dysgu, yn ogystal â chynnal asesiadau di-arholiad. Gall darparu asesiadau di-arholiad yn ystod, yn hytrach nag ar ddiwedd, y flwyddyn ysgol olygu bod ysgolion yn gweld bod angen iddyn nhw ddefnyddio goruchwylwyr a mannau dan do am gyfnodau hwy o amser, gan roi pwysau ar gyfleusterau cyfyngedig. Gall hyn fod yn

arbennig o anodd i ysgolion os ydynt hefyd am gynnal ffug asesiadau ar gyfer grwpiau blwyddyn eraill.

Yn ogystal â lle, efallai y bydd angen offer ar gyfer cymwysterau ac asesiadau sy'n ymwneud â thechnoleg ddigidol hefyd. Nododd yr ymatebwyr fod ystyriaeth o offer perthnasol yn arbennig o bwysig ar gyfer pynciau fel dawns, peirianneg, ffilm a chyfryngau digidol. Nodwyd y gallai fod angen i ganolfannau gael mynediad at gyfleusterau allanol, megis gweithdai neu stiwdios dawns.

Teimlwyd y dylai adnoddau addysgu ac offer fod mor gyson â phosibl ar draws ysgolion oherwydd gwahaniaethau o ran cefnogaeth rhieni a mynediad at adnoddau digidol. Byddai cysondeb yn y ddarpariaeth yn bwysig er mwyn lliniaru effaith anghydraddoldeb mynediad at adnoddau y tu allan i'r ysgol.

Yn ogystal â'r uchod, awgrymodd ymatebwyr y byddai angen cynllun cyfathrebu clir i esbonio'r cymwysterau a'r asesiadau i ddysgwyr, canolfannau, cyflogwyr, prifysgolion a'r cyhoedd yn ehangach. Roedd cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid yn cael eu hystyried yn elfen allweddol o hyn er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau neu ddisgwyliadau. Ystyriwyd bod angen sianeli cymorth a chyfathrebu hefyd, yn enwedig yn ystod y cyfnod gweithredu, os bydd gan randdeiliaid unrhyw ymholiadau neu bryderon.

Sut mae'r thema hon wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith

Drwy ein dull agored a chydweithredol o greu cymwysterau TGAU newydd, rydym wedi gallu cynnwys ystod eang o'r unigolion sy'n gyfrifol am weithredu, cyflwyno a gwneud dewisiadau ynghylch y cymwysterau newydd a gynigir mewn ysgolion. Rydym wedi gwrando ar bob barn am yr hyn sydd ei angen i reoli graddfa'r newid. Mae hyn yn cynnwys ystyried effeithiau'r diwygiadau hyn ar lefel pwnc unigol, yn ogystal ag ar draws y gyfres TGAU gyffredinol.

Bydd cyflwyno a rheoli'r newidiadau hyn yn llwyddiannus yn gofyn am ddull cydgysylltiedig effeithiol ar draws y sector i nodi a datblygu'r adnoddau, y dysgu proffesiynol a'r mewnbwn arbenigol y mae athrawon ac eraill wedi dweud wrthym y bydd eu hangen. Bydd gwybodaeth amserol a chlir yn hanfodol i helpu ysgolion i gynllunio a darparu adnoddau ar gyfer y cymwysterau a fydd yn cael eu cynnig, gan gynnwys recriwtio ac uwchsgilio staff a sicrhau bod offer a chyfleusterau yn eu lle.

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r corff dyfarnu i gynllunio rhaglen rheoli newid helaeth i gefnogi cyflwyno'r cymwysterau newydd hyn.

Cyhoeddir mwy o wybodaeth am hyn yn ystod tymor yr hydref yn nhymor academaidd 2023/24.

Wrth i ni symud ymlaen at ddatblygu a chymeradwyo cymwysterau TGAU newydd, byddwn yn parhau i gynnwys y gweithlu mewn trafodaethau a gofyn am adborth. Byddwn hefyd yn adeiladu ar y ffordd yr ydym wedi cynnwys partneriaid yn y system ehangach sydd â rôl hanfodol i'w chwarae wrth hwyluso deialog broffesiynol a darparu adnoddau ac arbenigedd pwnc.

Gellir gweld trosolwg o'n dull o reoli'r newidiadau hyn yn adran camau nesaf y prif adroddiad ymgynghori.

Goblygiadau polisi ehangach

Yn ogystal â gwneud sylwadau ar y gyfres arfaethedig o gymwysterau TGAU, soniodd yr ymatebwyr am sawl ystyriaeth sy'n berthnasol i'r dirwedd polisi addysgol ehangach y tu hwnt i ddyluniad y cymwysterau.

Er enghraifft, tynnodd yr ymatebwyr sylw at yr angen i ystyried y dull o ymdrin ag atebolrwydd ysgolion. Eglurodd y gallai'r defnydd posibl o gymwysterau mewn mesurau perfformiad gyfyngu ar arloesedd wrth gyflawni o ystyried y gallai ymarferwyr deimlo bod rhaid arnyn nhw 'addysgu ar gyfer y prawf'. Soniwyd hefyd y byddai'r bwriad i ryddhau amser cwricwlwm i ehangu profiadau dysgwyr ar draws y cynnig yn aflwyddiannus os mai dim ond detholiad o gymwysterau sy'n cael eu cynnwys mewn mesurau perfformiad ysgolion. Roedd teimlad bod angen gwahanu cymwysterau oddi wrth y ffordd y caiff ysgolion eu dwyn i gyfrif.

Yn ogystal, y gred oedd y dylid ystyried sut y caiff graddau cymwysterau eu hadrodd at ddibenion atebolrwydd ysgolion. Ni ddylid cyfyngu cyhoeddi canlyniadau i raddau A*-C gan fod hyn yn parhau'r syniad mai C yw'r radd lwyddo (tra bod pob gradd mewn gwirionedd yn adlewyrchu bod cymhwyster TGAU wedi'i gyflawni'n llwyddiannus).

Fel y nodwyd o'r blaen, tynnodd yr ymatebwyr sylw at yr angen i ystyried hyfforddiant, recriwtio a chadw athrawon hefyd. Ystyriwyd bod recriwtio a chadw athrawon yn arbennig o heriol oherwydd y llwyth gwaith cynyddol sy'n gysylltiedig â diwygiadau parhaus, cyflogau gwael, a bwrsariaethau hael yn cael eu dyfarnu mewn awdurdodaethau eraill. Awgrymwyd hefyd y gallai ymwahanu cymwysterau atal athrawon o wahanol awdurdodaethau rhag gweithio yng Nghymru. Teimlwyd y byddai'r cynigion yn cyfyngu'r 'gronfa dalent' i'r rhai sydd wedi'u hyfforddi yng Nghymru, ac na fyddai Cymru'n gallu denu'r athrawon mwyaf talentog. Dywedodd yr ymatebwyr fod yn

rhaid ystyried polisi'r llywodraeth yn y maes hwn os yw'r cymwysterau i gael eu cyflwyno'n llwyddiannus.

Roedd sylwadau ychwanegol yn cynnwys y dylai Cymwysterau Cymru ystyried sut y gallai'r cymwysterau arfaethedig gael eu heffeithio gan ddiwygiadau ehangach a pharhaus yn y sector. Amlygodd yr ymatebwyr y byddai myfyrio ar ddiwygiadau yn ymwneud â'r flwyddyn ysgol neu newidiadau i addysg gychwynnol athrawon yn bwysig wrth fapio capasiti neu ddeall sut y gellir effeithio ar gyflwyno'r cymwysterau arfaethedig.

Sut mae'r thema hon wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith

Er bod ein rôl wedi'i chyfyngu i gymwysterau, gwyddom fod cymwysterau'n dylanwadu ar ystod o ffactorau eraill o fewn y system addysg ac yn cael eu dylanwadu ganddynt. Dyna pam rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd ag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol i helpu i reoli hyn. Er enghraifft, rydym yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar eu gwaith o amgylch yr ecosystem data a gwybodaeth i ysgolion, yn enwedig mewn perthynas â'r rôl y dylai canlyniadau cymwysterau ei chwarae o fewn y system i werthuso perfformiad ysgolion.

Yn ogystal, rydym yn ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid eraill, fel yr undebau athrawon ac arweinwyr ysgolion ac Estyn, i helpu i ddeall yr effaith y mae cymwysterau yn ei chael ar addysgu a dysgu a llwyth gwaith athrawon. Byddwn yn parhau â'r ddeialog agos hon wrth i ni symud ymlaen i gam nesaf y prosiect.

Ystyriaethau ar gyfer y Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16

Gwnaeth yr ymatebwyr sylwadau ar y berthynas rhwng y cymwysterau TGAU arfaethedig a'r *Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16*, a fydd yn ôl ein cynnig yn cwmpasu cyfres sgiliau a chymwysterau cyn-alwedigaethol a sylfaen. Nodwyd y byddai angen ymgorffori cynnwys a chysylltiadau pwnc rhyng-gysylltiedig wrth ddylunio'r cymwysterau ar draws y cynnig llawn.

Yn ogystal, amlygodd rhai y byddai angen ymgorffori'r sgiliau a'r cymwyseddau a amlinellir yn y cynigion ar gyfer y *Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16* yn y cymwysterau TGAU arfaethedig. Byddai hyn yn angenrheidiol er mwyn atal datblygu sgiliau o'r fath rhag cael ei gyfyngu i 'seilos' cymwysterau.

Roedd rhai'n teimlo bod angen mwy o wybodaeth am y *Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16* i benderfynu a fydd ehangder y cymwysterau a fyddai ar gael yn hygyrch i bob dysgwr.

Roedd rhai pryderon hefyd y gallai creu cymwysterau ar wahân greu system ddwy haen. Teimlwyd y byddai'r cynnig i ddatblygu cymwysterau ychwanegol i ddiwallu anghenion rhai dysgwyr yn golygu nad yw pob dysgwr yn cymryd yr un cymwysterau ac na fyddai hyn yn cyflawni'r amcan o greu system gymwysterau deg.

Nodwyd ystyriaethau eraill, megis ailfeddwl y dulliau asesu yn hytrach na chreu cymwysterau ar wahân, gan y byddai hyn yn fwy tebygol o gyflawni system gynhwysol. Fodd bynnag, roedd rhai o'r farn y gallai creu cymwysterau ychwanegol ychwanegu profiadau dysgu gwerthfawr at y cymwysterau TGAU arfaethedig.

Sut mae'r thema hon wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith

Daeth ein hymgynghoriad ar y *Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16* i ben ar 14 Mehefin 2023 ac ar hyn o bryd rydym yn dadansoddi'r ymatebion. Yn dilyn ein penderfyniadau ar ddiwedd y flwyddyn hon, byddwn yn dechrau datblygu'r gofynion dylunio ar y cyd ar gyfer cymwysterau a fydd yn rhan o'r cynnig llawn. Fel rhan o'r broses hon, byddwn yn archwilio ac yn trafod pa gynnwys, dyluniad a chwmpas ddylai fod gan y cymwysterau hyn.

Bydd cymwysterau sy'n rhan o'r cynnig llawn ar gael, ochr yn ochr â'r cymwysterau TGAU newydd, o 2027. Bydd gan ddysgwyr yr hyblygrwydd i ddilyn cymysgedd o gymwysterau TGAU a chymwysterau'r cynnig llawn. Nid yw'n fwriad gennym i ddysgwyr ond allu cael mynediad at y gyfres TGAU neu gyfres y cynnig llawn o gymwysterau.

Awgrymiadau i'w hystyried

Gwnaeth y rhai a oedd yn anghytuno ag agweddau ar ein cynigion amrywiaeth o awgrymiadau amgen, fel y nodwyd isod.

- roedd rhai'n teimlo bod angen newid mwy radical i greu system gymwysterau integredig newydd (yn hytrach na chymwysterau pwnc-benodol)
- dylid defnyddio'r Cwricwlwm fel cyfle i ddatblygu dull o ymdrin â matriciwleiddio sy'n sicrhau dyfnder y datblygiad yn erbyn y pedwar diben ac ar draws chwe maes y Cwricwlwm
- awgrymodd rhai strwythurau cymwysterau amgen, megis ehangder y dysgu ar draws pynciau ym Mlwyddyn 10 a dyfnder y dysgu ym Mlwyddyn 11

- roedd eraill yn dadlau dros ddewis rhwng cymwysterau TGAU cyfunol a chymwysterau TGAU mewn pynciau ar wahân
- roedd cais am amlinelliad o'r hyn y dylai cymwysterau ei wneud, yn ogystal â'r hyn na ddylent ei wneud (megis osgoi cyflyru meddwl dysgwyr)
- roedd galw am symud yn llwyr oddi wrth bynciau lle mae 100% o'r canlyniadau ar sail arholiad
- cafwyd awgrym i gyfyngu asesiadau di-arholiad i bynciau'r dyniaethau ac asesiadau llafar i gymwysterau iaith
- roedd eraill eisiau gweld mwy o ffocws ar ddefnyddio asesiadau at ddibenion ffurfiannol, gyda dysgwyr yn cael mwy o gyfleoedd i atgyfnerthu gwybodaeth a sgiliau trwy gwisiau/profion rheolaidd drwy gydol y cwrs; ni fyddai hyn o reidrwydd yn cyfrif tuag at radd dysgwr ond gellid ei ymgorffori fel rhan o'r broses ddysgu
- mwy o asesiad o sgiliau trawsgwricwlaidd a chyfannol y Cwricwlwm, a'r themâu trawsbynciol
- roedd galw am fwy o gyfleoedd ar draws pynciau i sefyll asesiadau ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11
- un syniad a gyflwynwyd oedd rhoi dewis o ddulliau asesu i ddysgwyr ac i ddysgwyr ennill naill ai gradd 'arholiad' a/neu 'asesiad di-arholiad'
- roedd galw am 'fap asesu' i ddeall pryd bydd y gwahanol asesiadau yn cael eu cynnal ar gyfer y gwahanol gymwysterau
- awgrymwyd y dylai'r model cymwysterau ac asesu adlewyrchu'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio yn Lloegr
- gofynnodd rhai a ellir gyflwyno darpariaeth ar gyfer dysgwyr a fyddai'n barod i sefyll rhai o'r cymwysterau cyn eu bod yn 15 neu 16 oed

Clywsom hefyd amrywiaeth o awgrymiadau mewn perthynas â gweithredu, cyflwyno ac adolygu'r cynnig cymwysterau 14 i 16. Roedd y rhain yn cynnwys:

- ystyried sut mae gwledydd eraill wedi mynd i'r afael â diwygio addysg
- parhau i weithio mewn partneriaeth a chynnal gwaith datblygu ar y cyd gydag athrawon ac arweinwyr ysgolion
- casglu barn yr holl randdeiliaid, gan gynnwys y rhai sydd â safbwyntiau amrywiol a gwrthwynebol ar y cynigion
- mwy o rôl i gyflogwyr yn y broses o ddatblygu ar y cyd
- manylebau ar gyfer pob cymhwyster fel y gall sefydliadau addysg uwch wneud penderfyniadau gwybodus wrth osod gofynion mynediad cyfatebol ar gyfer dysgwyr o Gymru
- adolygiad o sut mae'r cymwysterau'n cysylltu â llwybrau ôl-16

- adolygiad o'r cymwysterau, ar ôl eu gweithredu, yn ogystal ag ymchwil i'w heffeithiau posibl

Sut mae'r thema hon wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith

Ein hymgynghoriad ar ddyluniad cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd oedd y trydydd ymgynghoriad i ni ei gynnal fel rhan o'n rhaglen ddiwygio *Cymwys ar gyfer y Dyfodol*. Mewn ymgynghoriadau cynharach, gwnaethom archwilio rôl a phwrpas cymwysterau a astudiwyd gan ddysgwyr 14 i 16 oed, perthynas cymwysterau â'r Cwricwlwm, a'u rôl wrth helpu dysgwyr i symud ymlaen yn llwyddiannus i ddysgu, hyfforddiant a chyflogaeth ôl-16. Gwnaethom ystyried a ddylai cymwysterau a ddyluniwyd i gefnogi'r Cwricwlwm ganolbwyntio ar bynciau unigol neu gael eu dylunio'n ehangach i gwmpasu pob maes o'r Cwricwlwm.

Yn yr adroddiad hwn, rydym eisoes wedi trafod sut rydym wedi gweithio gyda llawer o wahanol gyfranwyr i ystyried ystod eang o ffactorau yn ofalus wrth benderfynu sut y dylid asesu cymwysterau unigol. Mae'r rhain yn cynnwys sut y gall dylunio cymwysterau helpu i annog a galluogi dulliau cadarnhaol o addysgu a dysgu. Mae ein ffocws o reidrwydd ar y cynnwys a'r asesiadau a fydd yn cyfrannu at y radd gyffredinol a gyflawnir gan ddysgwr. Nid yw hyn yn atal athrawon rhag gwneud defnydd effeithiol o asesiadau ffurfiannol i helpu dysgwyr i ddatblygu ac i gwneud cynnydd.

Wrth gwblhau'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymwysterau TGAU, rydym wedi ystyried effaith bosibl eu dyluniad yn ofalus, gan gynnwys sut y gallai ysgolion a dysgwyr reoli maint ac amseriad asesiadau.

Bydd cam nesaf y diwygiadau hyn yn gweld y corff dyfarnu yn datblygu manylebau a threfniadau asesu manwl yn unol â'r meini prawf cymeradwyo cyhoeddedig. Wrth wneud hynny, rydym yn disgwyl iddo barhau i gynnwys rhanddeiliaid yn y broses o ddylunio a datblygu, a darparu gwybodaeth amserol i ysgolion ac eraill ar sut y gallai'r cymwysterau hyn edrych yn ymarferol.

Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn cadarnhau sut rydym yn bwriadu adolygu cymwysterau UG a Safon Uwch, a chymwysterau Lefel 3 cysylltiedig eraill, yng ngoleuni'r newidiadau yr ydym yn eu gwneud i gymwysterau TGAU. Byddwn hefyd yn dweud mwy am sut y byddwn yn monitro ac yn gwerthuso'r cymwysterau TGAU newydd unwaith y byddan nhw'n cael eu cyflwyno i fesur eu heffaith a'u heffeithiolrwydd – ar y cyd â gwerthusiad ehangach Llywodraeth Cymru o'r Cwricwlwm ei hun.

Anghenion gwybodaeth ychwanegol

Soniodd rhai ymatebwyr, fel gyda phob newid, ei bod yn anodd iawn rhagweld effaith bosibl y cynigion. Er mwyn gallu rhoi ateb mwy gwybodus i gwestiynau'r ymgynghoriad, roedden nhw'n teimlo y byddai angen mwy o fanylion arnynt ynghylch y cynigion (neu hyd yn oed enghreifftiau gweithredol o sut y byddai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith). Codwyd y pwyntiau a'r cwestiynau canlynol (y mae llawer ohonynt yn mynd y tu hwnt i gwmpas ein gwaith) yn hyn o beth. Roedd yr ymatebwyr eisiau gwybod:

- a fyddai disgwyl i ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn cael gwybodaeth a phrofiadau ar draws pob maes o'r Cwricwlwm
- a fydd yn ofynnol i ysgolion gynnig y gyfres lawn o gymwysterau TGAU newydd neu, os na, a fyddai disgwyl iddynt gynnig ystod sylfaenol o ddewisiadau ar draws holl feysydd y Cwricwlwm
- o ystyried y bydd dysgwyr yn profi gweithgareddau trawsgwricwlaidd yn ystod blynyddoedd cynnar eu haddysg, a fyddai dull tebyg yn cael ei gadw ym Mlynyddoedd 10 ac 11, neu a fyddai addysgu yn cymryd ymagwedd fwy traddodiadol oherwydd gofynion y cyrsiau TGAU sy'n benodol i'r pwnc
- a fyddai ysgolion yn dal i allu cyflawni cymwysterau TGAU dros dair blynedd, fel sy'n wir nawr ar gyfer rhai ysgolion
- mwy o fanylion mewn perthynas ag asesiadau di-arholiad:
    - sut byddai athrawon yn ymwneud â'r broses asesu?
    - sut bydd cymedroli'n gweithio?
    - pa gyfle fydd ar gael i gynnwys mwy o ddeunydd lleol?
    - a fydd cyrff dyfarnu yn cymeradwyo pob tasg/thema asesu yn unigol, gan gynnwys sut y bydd y dasg yn cael ei gweithredu?
    - gofynnwyd am eglurder pellach ar y trefniadau ar gyfer darparu tystiolaeth ddigidol fel rhan o'r asesiadau di-arholiad a sut y gellid goresgyn rhwystrau posibl (e.e. tlodi digidol)
- a fyddai ysgolion a darparwyr nad ydynt yn cael eu hariannu'n gyhoeddus yn gallu cael mynediad at gymwysterau a gynigir yn Lloegr gan gyrff dyfarnu eraill
- mewn perthynas ag ysgolion Catholig, a fyddai dysgwyr yn gallu parhau i gael mynediad at bapurau arholiad Catholig

Tynnwyd sylw at y ffaith bod gan yr atebion i'r cwestiynau hyn oblygiadau o ran dichonoldeb, hylawrwydd a thegwch.

Sut mae'r thema hon wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith

Fel rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau yng Nghymru, ein rôl yw sicrhau bod gan ysgolion fynediad at ystod briodol o gymwysterau i'w galluogi i weithredu'r Cwricwlwm a diwallu anghenion eu dysgwyr. Mae gosod disgwyliadau ar gyfer sut y dylai ysgolion ddefnyddio'r ystod o gymwysterau sydd ar gael yn fater i Lywodraeth Cymru. Yn ddiweddarach eleni, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag ysgolion ac eraill i ddatblygu cyngor a chanllawiau i ysgolion ar sut y gallan nhw wneud y defnydd gorau posibl o gymwysterau i'w cefnogi wrth gynllunio a chyflwyno eu cwricwla ysgol yn unol â fframwaith y Cwricwlwm. Bydd hyn yn cynnwys darparu mwy o wybodaeth am y trefniadau ar gyfer gwerthuso a gwella ysgolion yn y dyfodol a'r rôl y bydd cymwysterau'n ei chwarae yn y rhain.

Bydd y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd yn cael eu dylunio i gael eu cyflwyno i ddysgwyr dros gwrs dysgu dwy flynedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod hyn yn unol â gofynion fframwaith y Cwricwlwm, sydd â gofynion penodol ar gyfer sut mae ysgolion yn cynllunio eu cwricwla ar gyfer dysgwyr 14-16 oed (hynny yw, ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 10 ac 11). Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd yn tybio y bydd y dysgwyr cyntaf i'w dilyn yn dechrau eu hastudiaethau wrth iddyn nhw ddechrau ym Mlwyddyn 10 ym mis Medi 2025. Mae hyn yn golygu na fydd ysgolion yn gallu cyflwyno'r cymwysterau newydd hyn dros gyfnod o dair blynedd.

Gall darparwyr dysgu a ariennir yn gyhoeddus ond cynnig a chyflwyno cymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo neu eu dynodi gan Cymwysterau Cymru fel rhai sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus. Ni fyddant yn gallu dewis cymwysterau TGAU amgen yn y pynciau y cynigir cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru ynddynt. Mae gan ddarparwyr dysgu a ariennir yn breifat hawl i gynnig pa gymwysterau bynnag y maent yn credu sy'n briodol, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn gymwys i gael arian cyhoeddus, neu'n wir y rhai nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru.

O ran trefniadau ar gyfer asesiadau di-arholiad mewn pynciau lle mae hyn yn berthnasol, darperir mwy o fanylion yn y meini prawf cymeradwyo unigol ar lefel pwnc a'r adroddiad ar ganlyniadau ymgynghori yn ôl pwnc. Bydd rhywfaint o'r manylion ychwanegol y gofynnir amdanynt mewn perthynas â threfniadau asesu penodol ond yn cael eu cadarnhau unwaith y bydd y corff dyfarnu wedi datblygu'r manylebau manwl.

Darperir mwy o fanylion am y llwybrau posibl drwy'r cymhwyster TGAU Astudiaethau Crefyddol ar gyfer ysgolion Catholig o fewn meini prawf cymeradwyo'r pwnc hwnnw.

Atodiad

Cawsom ymatebion i ddau gwestiwn caeedig (cwestiynau graddfa Likert) a oedd yn mesur i ba raddau y cytunwyd â'r cynigion ar gyfer y gyfres newydd o gymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig. Mae'r siartiau isod yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd:

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno, at ei gilydd, bod y dyluniad arfaethedig ar gyfer y cymwysterau sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru?

99 ymateb



I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno, at ei gilydd, y bydd y trefniadau asesu arfaethedig ar gyfer y cymwysterau sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn yn mesur yr hyn y mae dysgwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud yn deg ac yn gywir?

99 ymateb